



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>

Celt
5160
G.35

5130.6.35


Harvard College Library




FROM THE BEQUEST OF

THOMAS WREN WARD

TREASURER OF HARVARD COLLEGE
1830-1842





Celt 5160

ESTHER.

GAN GLAN ALUN,


SWEN "FFORWASH:" " EMBEDIADAU STRIGOS," &c.

TREFFYNNON:

ENGRAFFWYD GAN P. M. EVANS.

MDCCLXIX.

PRIS CHWE* CHEINIIG.



Clas fod nifer o "Bregethwr y Bobl" ar law
ar ol yr argraffiad diweddar, yr ydys yn eu rhoddi
yn yr amlen hwn gydag "Esther," mor bell ag y
cyrhaeddant, (heb ychwanegu y pris.)



ESTHER.

GAN GLAN ALUN,

AWDWR "FY CHWAER;" "EHEDIADAU BYRION," &c.

TREFFYNNON:

ARGRAFFWYD GAN P. M. EVANS.

—
MDCCLXIV.

Cat 5160.6.35



Ward fund

Thomas Jones

ESTHER.

Y RHAN GYNTAF.

I.

(YB OLYGFA—Gwledâ fawr yn nghyntedd y palas breninol—Ahasferus a'r ymwelwyr oll yn "llawen gan win"—Bloeddiadau: "Byw fyddo y Brenin Ahasferus!"—Eraill: "A'r Frenines Fasti!")

Ahasferus yn ymson wrtho ei hun.

FASTI! O! na bae Fasti yma yn awr
Ei hun i dderbyn yr anrhydedd twym
A'r serch teyrngarol hwn, ac i gael gwel'd
Mawredd diai ei phriod yr un pryd,
A chydfwynhâu ei urddas! I ba beth
Yr ydys yn ymrwymo 'n nghadwen deg
Priodas, ond er mwyn eangu a
Dwfnhâu pob mwyniant gaffom trwy ei ratu?
Nid wŷr yr unig, tlawd, dibriod, ddim
Pa beth yw gwir ddedwyddwch. O! fy hoff,
Fy anwyl brydferth Fasti! onid un
Yn awr ym ni ein dau; a phan y bo
Rhyw bleser megys heddyw i fy rhan,
Os na bydd Fasti yn ei gydfwynhâu,
Ymdeimlaf fel pe byddai 'r teimlad pêr

Yn wan, anmherffaith, ac heb dreiddio trwy
 Yr oll o'm hanfod, ie, heb gyrhaedd i'r
 Rhan oreu o honof. Ac heblaw hyn,
 Pa les i ŵr feddiannu trysor teg
 Digymhar, oni cha y byd ei weled?
 Ni waeth pen moel na choron, bwthyn tlawd
 Na phalas gwych, oni bydd llygaid fil
 I edrych arnynt. A pha les i mi
 Fod Fasti yn decach na benywod byd,
 Fel y rhagora 'r haul ar sêr y nos,
 Oni bydd hyny 'n hysbys—oni bydd
 Yn crëu cenfigen fy ngelynyon, ac
 Yn rhoi fy holl gyfeillion i ryfeddu?
 Wele yn awr y dorf amrywiog hon
 A ddaeth ynghyd o bedryfanau 'm gwlad
 I weled mawredd, urddas, cyfoeth, rhwysg,
 A nerth ei brenin; a ollyngaf fi
 Y rhai 'n yn ol heb iddynt unwaith wel'd
 Y perl dysgleiriaf feddaf? nid all fod.
 Rhaid iddynt weled Fasti; yna hwy
 Daenant ei chlod trwy 'r ymherodraeth oll,
 A dywed pawb, Mor ddedwydd yw y brenin!
 Mor fawr yw Ahasferus!

Yn cyfarch yr ymwelwyr.

Ddeiliaid hoff!

Yr wyf yn teimlo y teyrngarwch pur,
 Y serch tuag ataf, y ffyddlondeb brwd,
 Sydd yn eich anerchiadau; mwyaf oll
 Eich bod yn cofio â dyledus barch

Eich teg frenines Fasti. O! na bae
 Hi yma ei hun i dalu diolch yn
 Ei dull mawreddus, serchog, mwyn ei hun!
 Yn wir y mae fy Fasti i yn deg,
 Yn gall, yn lluniaidd, yn anwylaidd, yn
 Rhagori ar y myrdd mewn glendid fel
 Y mae mewn gallu. Chwi faddeuwch im'
 Os yn yr awr orlawen hon y bydd
 I'm teimlad redeg braidd tros ben y llestri.
 Nid yw defodau 'r wlad yn caniatâu
 I wragedd ddod i gwmni megys hwn,
 Neu mi a'i harchwn yma; ac yn wir
 O'r braidd na thorwn dros y rheol. Mae
 Heddyw yn ddiwrnod anghyffredin, a
 Phwy all fy ngalw i gyfrif? Yn ddi os
 Mi a'i mynaf yma—yma yn ddioed.
 Dylaswn roddi rhybudd iddi yn wir;
 Mae hithau 'n rhoddi gwledd y fynydd hon
 I'r gwragedd pendefigaidd; ond hi ddaw,—
 Hi ddaw yn ddïau, a rhydd i'w deiliaid oll
 Esiampl o ufudd-dod.

Yn cyfarch yr ystafellyddion.

Mehuman, Biztha, Bigtha,
 Harbona, Zethar, Abagtha, a Charcus:
 Ewch oll ynghyd yn drefnus i'r brenindŷ;
 Cyfarchwch y frenines gyda pharch
 Dyladwy; a'm hanerch mwyaf serchog.
 Mynegwch fod y wledd fawreddig hon
 Yn awr ar ddarfod, a chyn i'r enwog lu

Urddasol o ymwelwyr ymwasgaru
 Fod yn fy mryd ddymuniad iddi hi,
 F' anwylaf Fasti, weled cymaint yw
 Cadernid ei theyrnasoedd; ac er mwyn
 I'r pendeigion oll gael cyfle teg
 I'w hanrhydeddu; ac i weled faint
 Ei theg brydferthwch; fel y dygont glod
 Ei glendid rhyfedd trwy 'r taleithiau oll
 O India hyd Ethiopia. Gwir nad yw
 Yn ol arferiad Media a Phersia fawr
 I'r fenyw dyner i ymddangos byth
 Yn ngwleddoedd y gwrywiaid; ond y mae
 Y brenin uwchlaw deddf; ei hawlfraint ef
 Yw rhoddi deddf, neu drefnu eithriad iddi.
 Deued gan hyny, deued yn ddioed,
 A deued yn ei gwisg freninol gain,
 A'r goron ar ei phen,—hyn yw 'm dymuniad.
 Yr ystafellyddion yn myned ymaith.

Ymwelwyr yn ymddyddan o'r neilldu.

YMWELWR IEUANO—

Wel! yn wir! O bosibl ni gawn weled
 Y fenyw odiaeth hon; ond gyda llaw,
 Nid gorchest fawr i fun wedi ei hamdoi
 Mewn sidan, porphor, gemau, plu, ac aur,
 A choron berlog, ddrudfawr, ar ei phen,
 I ymddysgleirio. Anhawdd peidio dwyn
 Breninol osgo mewn breninol wisg.
 Ond O! pe gwelent hwy fy mhriod hoff,
 Fy nhag Fatima! gwelent ynddi hi

Frenines wrth naturiaeth ! nid oes raid
 Wrth wisgoedd gwychion, coron, perlau teg,
 I'w gosod allan,—pylent wrth ei gwedd.
 Ei chorff mor luniaidd ! ei modrwyog wallt !
 Fwyneidd-dra, synwyr, a thyneraf serch !
 Tryloew liwiau ei hawddgaraf wedd !
 Y llygaid dysglaer yn serenu gan
 Ei phob symudiad yn lledneisrwydd pur
 Ac angeleidd-dra ; ie, os yn wir
 Yw 'r angel yn fwy prydferth, teg, a mwyn.
 Ni wn i ddim o ba le daeth y teg
 A'r addfwyn i nodweddu engyl, gan
 Nad oes i'w plith fenywod na babanod.
 Nid aeth yr haul ond dwywaith trwy ei gylch
 Blynyddol er pan unwyd ni ein dau
 Mewn rhwymyn priodasol ; a phob dydd
 Gryfhâ fy serch ; canfyddaf degwch mwy,
 Rhinweddau newydd, yn fy hoff Fatima.
 Mae i ni faban hefyd, insel prid
 O'n cariad puraidd ; ni ddaeth gair erioed
 O'i enau eto, ond fe daflodd swyn
 Drwy ein holl annedd. Mae y gwirion bach
 Y gallu bychan mawr, fel âg un llaw
 Yn cydio yn nghalon bur ei dyner fam,
 Tra yn y llall fy nghalon innau sydd ;
 Ac felly trwyddo ef, o'r naill i'r llall
 Fe lifa serch yn gryfach nag erioed.
 O ! na bawn adref ! Beth i mi yw Fasti ?
 Mae hiraeth arnaf am Fatima gu.
 O ! na bawn adref eto i grwydro maes,

Ymlid y geifr ar hyd y bryniau ban,
 Neu hela petris y mynyddoedd iach,
 Dychwelyd adre' yn llawen gyda 'r hwyr,
 I lòn ymddyddan â Fatima gu
 A chwareu â'r bychan !

YMWELWR OEDRANUS—

Gwelais innau 'r dydd
 Pan lawenychwn yn mhrydferthwch mawr
 Fy mhriod ieuanc. Gwelais innau 'r dydd
 Pan y gwirionwn i yn llwyr uwch ben
 Fy mhlentyn cyntaf. Ond aeth hyny heibio !
 Yr ŵyrion sydd yn awr yn chwareu o gylch
 Fy ngwraig a minnau ; ac yn wir os oedd
 Rhyw swyn dedwyddol gyda'r plant, y mae
 Mwy gyda'r ŵyrion,—y maent hwy a ni
 Megys yn nês i'n gilydd. Am fy ngwraig,
 Fy hen wraig bellach, nid yw blwyddau maith
 Wedi lleihâu ein cariad ; os na rêd
 Y ffrwd mor gyflym, dyfnach, trymach yw.
 Beth os yw 'r llygaid llòn a'm swynai gynt
 Yn llai tanbeidiol—beth os trôdd y gwallt
 Oedd gynt mor ddu, yn frith, ac yna 'n wyn—
 Beth os yw amser wedi gadael ôl
 Ei aradr nerthol ar y dirion wêdd
 Oedd mor ireiddlawn gynt ?—Yn araf daeth
 Y cyfnewidiad ; felly ni 'm tramgwyddodd.
 Ond, gyfaill ieuanc, er i'r dyn oddiallan
 Gyfnewid, nid yw 'r ysbryd ddim yn treulio.
 Dyna sydd wir dylawd, pan byddo 'r wisg

Yn decach nag yw 'r corff, a'r corff na 'r enaid;
 Pan dreulio 'r wisg, fod tegwch gwedd yn darfod,
 Pan wywo 'r wedd, nad oes dim tegwch mwy!
 Mae y rhagoriaeth meddwl, rhinwedd, tymher,
 Oedd yn fy hoff wraig gynt, yn para eto
 Heb ymgrebychu. Mae y gell yn wir
 Yn ymagenu, ond mi wela 'r perl
 Yn ddysglaer trwyddynt, ac yr wy 'n oludog.
 Tuedda 'r byd i gilio oddiwrth yr hen;
 'R ym ninnau 'n blino arno; ac o'r bron
 Yn unig fyd i'n gilydd; fel dau bren
 Wedi cydsefyll trwy dymhestloedd oes
 Gan wendid henaint yn gogwyddo ynghyd,
 Nes gorphwys ar eu gilydd; felly ninnau,
 Fy ngwraig a minnau. Pa beth hynag yw
 Tegwch Fatima gu a Fasti fawr,
 Ni fynwn eu dibrisio, ac nid oes
 Cenfigen ynof;—mae fy hen wraig i
 I'm golwg i mor anwyl deg a hwythau.

II.

(Y frenines Fasti yn gwledda y gwragedd yn y brenindŷ—Yr ys-
 tafallyddion yn dyfod i mewn, ac yn cyfarch y frenines.)

Mehuman.

Anfonwyd ni, O! ardderchocaf Fasti,
 Gan Ahasferus frenin. Mae y wledd
 Ardderchog â pha un y gwleddodd ef
 Ei dywysogion oll yn awr ar ben;
 A chyn i'r dorf urddasol ymwahanu,

Dymuna 'r brenin i'r frenines dd'od
 I'r baball wledde, i wel'd cymaint yw
 Cadernid ei theyrnasoedd, ac er mwyn
 I'r pendefigion oll gael cyfle teg
 I'w hanrhydeddu, ac i weled faint
 Ei theg brydferthwch, fel y dygont glod
 Ei glendid diail trwy 'r taleithiau oll.

*Gwaedd o syndod gan y boneddigesau, ac oll yn
 siarad ar unwaith.*

Mae 'r brenin Ahasferus wedi meddwi !
 Mae 'r brenin wedi meddwi, meddwi, meddwi !

Fasti.

O ! cellwair mae fy arglwydd ; byth ni wnai
 Amcanu rhoddi arnaf fath sarhâd,
 A gofyn imi megys putain dd'od
 Yn wrthddrych i lygatau anllad mit
 O ddynton llawn o win i rythu arnaf.
 Cellwair y mae. Mehuman, dywed im',
 Onid o'r neilldu, yn ddirgelaidd, ac
 Heb wybod i'r ymwelwyr, rhoddodd ef
 Y genadwri hon i ti a'th frodyr ?

Mehuman.

Nid felly, O ! frenines, ond ar g'oedd
 Yr holl gyfeillach, yn ddifrifol iawn
 Adroddai 'r brenin ei ddymuniad, ac
 Y rhoddodd y genadaeth hon i ni.

Fasti.

Och fi! pa beth yw hyn? Pa beth a wnaff?
 Da gŵyr y brenin nad oes dim na wnawn
 Er mwyn ei foddio, ië, ufuddhawn
 Hyd farw drosto; ond mae hyn yn waeth
 Na marw; canys beth yw bywyd werth
 Pan fyddo y cymeriad wedi ei golli?
 O! fawr gyfyngder! Rhaid i mi yn awr
 Droseddu yn erbyn, ac anufuddhau
 I'm harglwydd frenin, a hyny yn ngwydd holl
 Fawrion ei deyrnas; neu droseddu 'n hyf
 Yn erbyn urddas gwyl a phur fy ystlen,
 A myn'd yn nôd i wawd benywod byd.
 Mae 'n gyfyng arnaf! Gyfeillesau hoff,
 Mynegwch im', mynegwch, beth a wnaff?

Boneddige 1af.

Urddasol Fasti! nid oes achos it'
 Betruso mynyd ar y mater hwn.
 Mae 'r archiad ffol mor afresymol fel
 Y byddai yn anfri ar y lodes dlawd
 Iselaf yn y deyrnas; pa faint mwy
 Ar ein brenines? Mae cymeriad yn
 Cynnyddu mewn pwysigrwydd fel y bo
 Sefyllfa un yn uwch. Mae enw da
 Yn goron mwy ei gwerth na choron Persia.
 Os rhaid yw colli un, gwell fyddai colli
 Y goron olaf ddeg can' mil o weithiau.
 Ond wfft i'r dynion! dyma fel y maent!
 Pan yn ymdrechun ennill sylw merch,

O! mor ystyriol, llednais, tyner, mwyn!
 Ond unwaith y cyrhaeddont at y nôd,
 A theimlo eu hawdurdod, yn y fan
 Tro'nt yn ormeswyr tra-arglwyddaidd câs,
 A thriniant wragedd megys caethion gwael
 Nad ydynt dda i ddim ond i foddhâu
 Eu nwydau cas a'u ffol fympwyon hwy.
 O'm rhan fy hun nid oes i mi un gŵr.

Boneddiges 2il.

Ac felly mae eich tymher wedi suro!
 Yn wir nid yw y dynion damaid gwaeth
 Oblegid i chwi ddygwydd methu yn
 Eich marchnad briodasol. O'm rhan i,
 Pe cawn i ŵr, myfi a ufuddhawn
 I'w bob dymuniad heb ymofyn pam;
 Ystyriwn mai ei briodoledd ef,
 Y meddwl cryfaf, fyddai penderfynu
 Y cymhwys neu 'r anghymhwys; yna os
 Camweddw'n weithiau, ar ei ysgwydd ef,
 Nid arnaf fi, y gellid bwrw y bai.
 Pand felly 'r ymarweddodd Sara deg,
 Gwraig yr hen Batriarch Hebrëaidd gynt?
 Hi ufuddhâodd nid yn unig hwnt
 I'r hyn oedd weddaidd, ond i'r hyn oedd foesol.

Boneddiges 1af.

Nid oedd gorchymyn Abraham yn wir,
 Na bâs ufudd-dod Sara iddo chwaith,
 Yn un anrhydedd iddynt. Heblaw hyn

Nid awn i ddim i gael ein dysgu gan
Henafiad yr Iuddewon caethion hyn.

Boneddiges Sedd.

Yn ol a welais i, rhy fach o bwyll
Yw prif achlysur anghydfodau blin
Rhwyng gwŷr a gwragedd: rhaid yw iddynt hwy
Yn fynych roi a chym'ryd, a chyd-ddwyn,
Ac nid cildynu a gwgu am bob gair
Neu amcan byrbwyll. Gwna amynedd droi
Aml ergyd heibio, ac attal llawer rhwyg.
Diammheu genyf mai yn ngwres ei serch,
A gwres y gwin yn gymysg, y daeth hyn
I feddwl Ahasferus; ac mai grym
Y ddau ynghyd a'i cariodd ef mor bell
Dros ffin doethineb; canys pa lesâd
F'ai taenu clod ei Fasti trwy y wlad
Ar draul darostwng ei chymeriad am
Wyleidd-dra llednais, coron benaf merch?
Anfoned y frenines ato yn ôl
Esgusawd parchus, serchlawn, ac arafaid.
Pan elo heddyw heibio, ac y bydd
Holl gyffro gwyllt a holl orhoian brwd
Y wledd fawr drosodd; a meddyliau llon
Y brenin yn arafu, gwel ei hun
Mor anmhrïodol oedd yr archiad hwn;
Ac ef ei hun a barcha Fasti 'n fwy
Am anufudd-dod nac am ufuddhâu.
Gwell yw ei ddiogio am ddiwrnod na rhoi lle
I'w fynwes ffromi yn glwyfus am ei oes.

Fasti.

Mae rhyw iselder ofnus wedi bod
 Yn pwyso er 's dyddiau ar fy ysbryd i,
 A heddyw yn neillduol, teimlaf fel
 Pe byddai profedigaeth fiin gerllaw.
 Mae rhyw ragsyniad ynof mai mawr ddrwg
 A ddaw i mi o hyn; ond doed a ddelo,
 Mi ni phetrusaf. Ni weithredaf yn
 Annheilwng o fy swydd, fy enw, a'm rhyw,
 A mwy nag oll, o'r brenin, fy hoff ŵr,
 Yr hwn a'm cododd i i'r orseddfainc.

Wrth yr ystafellyddion.

Dychwelwch chwi, genadon, yn ddioed,
 A dygwch f' anerch serchlawn at y brenin;
 Adgofiwch iddo nad anufuddhais
 Un archiad iddo erioed; ond fod yr hyn
 A archodd heddyw mor ryfeddol groes
 I deimlad benyw, ac i foesau 'n tir,
 Nad allwn wed'yn godi byth fy mhen:
 Collwn fy hunan-barch, a pharch fy ngwlad,
 A pharch fy arglwydd frenin yn ddian,
 Yn y canlyniad. O! boed iddo 'n fwyn
 Ystyried f' achos eilwaith, ac na foed
 I'm harglwydd ddigio, ond maddeued im'
 Nad allaf—dyma ofid pena 'm hoes—
 Nad allaf, ac na feiddiaf ufuddhau!

(Yr ystafellyddion yn myned allan.)

III.

(Yr ystafellyddion wedi dychwelyd at y Brenin *Ahasferus*).

Ha! dyma 'r 'stafellyddion wedi d'od
 Yn ôl o'r diwedd; buont yn lled hir;
 Ond tebyg yw mai Fasti fu 'n ymdrwsio
 Fel bydd y gwagedd, fel y gallai yn addas,
 Ac er anrhydedd iddi hi a minnau,
 Ymddangos ger eich bronau. Wel! Mehuman,
 Pa le mae Fasti?

Mehuman.

Yn y brenindŷ, f' arglwydd.

Ahasferus.

Yn y brenindŷ! onid yw hi 'n d'od
 Yn ol fy archiad serchlawn? traethwch im'
 Yn union, beth yw 'r ateb i'm dymuniad.

Mehuman.

Ni gawsom y frenines wrth y bwrdd
 Yn gwledda 'r uchelwagedd; ac ar ol
 Ymostwng iddi, adroddasom ni
 Ein cenadwri, yr hon a barodd gyffro
 A syndod mawr ymhlith y gwagedd oll;
 Ac wedi ymgynghori yspaid maith
 A'i chyfeillesau, d'wedai Fasti fod
 Archiad y brenin heddyw mor llwyr groes
 I holl ddefodau 'r oes, ac môr sarhäus
 Ar deimlad llednais benyw, fel nad allai
 O bosibl ufuddhâu; a thaer erfyniai

Ar eich mawrhydi i hynaws faddeu iddi,
 Ac ail ystyried ; ac i gofio nad
 Anufuddhâodd hi erioed o'r blaen,
 Ac na wnai yn awr pe buasai 'r archiad hwn —

Ahasferus.

Digon, Mehuman ; ni wrandawaf mwy
 Ar yr esgusawd gwrthryfelgar ffol.
 Mae yma yn amlwg gydfrawdriaeth hŷf
 Ymhlith y gwagedd ; beth ! a ydwyf fi
 Yn frenin ar daleithiau Media fawr
 A Phersia äang, a'm meddyliau yn
 Gyfreithiau i'w preswylwyr dirifedi ;
 Ac a gaiff benyw groesi fy ewyllys,
 Ammheu doethineb fy nhrefniadau i,
 A fy sarhâu ger bron fy nhywysogion,
 A'r uchelwagedd oll ! Nid all hyn fod !
 Mynegwch i mi, ddoethion, beth yw 'r gyfraith,
 Pa beth a wneir i Fasti ? A pha fodd
 Cedwir fy urddas, ac y rhwystrir i'r
 Fath ysbryd gwrthryfelgar daenu ar léd ?

Memuchan.

Fy arglwydd frenin, y mae yn llawn bryd
 I drefnu cyfraith i gyfyngu rhwysg
 Y rhyw fenywaidd. Y mae lle i gredu
 Nad yw yr hyn ddygwyddodd yn y llŷs
 Ond enghraifft ac esiampl o'r hyn sydd.
 Yn awr yn bod mewn llawer tŷ yn Media
 A Phersia fawr, sef fod y gwagedd yn

Mynu 'r arglwyddiaeth, fel nad yw y gwŷr
 Ond islywyddion yn eu tai eu hun.

Marsenas.

Memuchan druan, os fel yna y mae
 Yn d' annedd di, yn wir nid felly mae
 Yn gyffredinol. Ond lle bynag mae
 Dyn yn wir ddyn, nid oes un fenyw fyth
 A arglwyddiaetha arno. Os bydd dyn
 O ysbryd gwan merchedaidd, ond ei wraig
 O feddwl cryfach, cliriach, onid hi
 A ddylai lywodraethu? Nid wrth farf,
 Neu asgwrn cryf mae barnu y ddynoliaeth,
 Ond wrth yr enaid; myn y meddwl mawr
 Ei le er gwaethaf pobpeth, a'r un bach
 A sudda i israddoliaeth wrth ei bwys,
 'D oes dim a'i hattal. Mae yn ddigon gwir
 Fod gwraig anynad megys dafnau —

Memuchan.

“Dafnau,” ddyn! yn hytrach d'wéd rhaiadrau,
 Cwmwl-doriadau, t'ranau mawr a mellt,
 Tröwynt, a chorwynt, cenllug, daeargryn,
 'N ymryson am dy aelwyd—ysbryd drwg
 Nad allai telyn Dafydd bér ei hun
 Ei ymlid ymaith. Ac yn awr fe fydd
 Yn fil fwy anhawdd nag erioed i ŵr
 Faentumio ei awdurdod, canys bydd
 Esiampl freiniol yn ein llwyr ddileu.
 Yn wir fe gawn i gyd ein ffustio â Fasti!

Fy nghynghor i yw fod i'r brenin roi
 Gorchymyn allan na ddél Fasti mwy
 I'w bresennoledb, a bod iddi roi
 Ei lle i'w gwell, sef i un mwy ufuddgar ;
 A bod gan bob gŵr hawl trwy 'r deyrnas oll
 Yn yr un modd i drin ei wraig ei hun.
 Dyna yr unig ffordd a welaf fi
 I attal terfysg, ac i lwyr ragflaenu
 Rhyfel cartrefol yn ein holl anneddau.

Ahasferus.

Da iawn, Memuchan : 'r wyf yn llwyr gyttuno
 A'th ddoeth gynghorion, boed i'r 'sgrifenyddion
 Ar unwaith anfon allan mewn llythyrau
 I'r perwyl yna trwy 'r taleithiau oll,
 A boed yn gyfraith mwy i Media a Phersia.

YR AIL RAN.

I.

(YR OLYGFA—Ystafell-wely Ahasferus).

Ahasferus yn deffro.

FASTI! Pa le mae Fasti? O! fy mhen!
 Fileiniaid! Rhowch im' ddiod! Wele mae
 Fy ngenau yn gras-sych, a fy nghylla ar dân!
 Pa beth yw hyn? O! 'r wyf yn cofio yn awr;—
 Y wledd fawr neithiwr! Y llawenydd mawr;—
 Cymundeb ffyliaid! minnau y penaf un,
 Yn llawn o win! Wrth lenwi o ddiod gref
 Gwaghawyd ni o'n synwyr! Nid oes le
 Yn 'menydd dyn i'r ddau, ac ni chyttunant;
 Pan ddél y naill i mewn, â'r llall i maes.
 O! bleser ffol! Dedwyddwch ynfyd, gau,
 Twyllodrus hefyd, yw yr hwn a geir
 Trwy boethi 'r gwaed, symbylu 'r meddwl gwan
 I ymyl d'ryswch; codi 'r ysbryd fry
 Yn ddigon uchel i roi codwm cas
 Anaele iddo! O! fy Fasti deg!
 Fy hoff, fy serchog, fy rhinweddol wraig!
 A ydyf wedi 'th golli? O! fy mhen!
 Cyfreithiau Media a Phersia nid oes modd
 Eu newid hwynt! Gall cyfnewidiol ddynt

Wneyd deddfau digyfnewid ! Wele 'n wir !
 Gall dynion meddwon wneyd cyfreithiau i ddal
 Y sobr yn gaethion byth ! Oes dim apêl
 O feddwod at sobrwydd ? Beth a wnaeth ?
 Ffileiniaid, pa le mae 'r gwin ? Brysiwch âg ef,
 Lestraid o'r henaf, cryfaf yn y gwindy.

II.

(Memuchan a gweision Ahasferus).

Y gwas cyntaf.

Henffych, Memuchan ! Ti a ddaethost yma,
 Yn union yn yr adeg, canys mae
 Y brenin yn orphwyllog am yr hyn
 A basiodd neithiwyr. Er pan y deffrôdd
 Y bore heddyw mae ei feddwl yn
 Y cyffro mwyaf; sonia yn ddibaid
 Am ei anwylaf Fasti; edifarhâ
 Am ei orchymyn byrbwyll yn ei chylch;
 Mawr yw ei dristwch; ni fyn ei gysuro.

Memuchan.

Felly yn wir ! Ac nid efe yw 'r cyntaf
 A wnaeth o dan ddylanwad diod gref
 Yr hyn a barai alar am ei oes
 A thristwch iddo. Pa le mae e' yn awr ?

Ail was.

Yn ei ystafell mae yn yfed gwin,

Gan rodio ôl a blaen ar brydiau yn wyllt,
 A thra chynhyrfus; weithiau cura ei ben,
 Ac yna ei ddwyfron; sieryd ynddo ei hun,
 Gan furmur yn ddibaid, "Fy anwyl Fasti!"

Memuchan.

O! gadewch iddo, fe ddaw eto yn well.
 Fasti yn wir! Onid oes yn ein gwlad
 Fenywod filoedd sydd yn llawn mor deg
 A chall â hithau? y mae yn y môr
 Fil mwy o bysgod nag a ddelir byth.
 'D oes dim i'w wneyd ond cyrchu yn ddioed
 Ryw wrthddrych newydd i bêr swyno serch
 A nwyd y brenin. Pan y dygwydd fod
 Dyn wedi ei siomi am anwlyd, nid
 Oes dim cyffelyb er lliniaru y boen,
 A chodi 'r galon, a chael cariad newydd.
 Mynai Marsenas neithiwyr yn y wledd
 Awgrymu am fy synwyr i, mai gwan
 A bychan ydoedd; ond gwn innau beth
 Am naws y natur ddynol; ac mi ddôf
 Trwy hyn yn burion. Am y ddeddf a aeth
 Oddiwrth y brenin trwy y deyrnas oll
 Yn erbyn gwragodd cyndyn, nid oes wiv
 Na modd ei newid; onidê yn wir
 Os drwg oedd cynt byddai yn ddeg gwaeth gwed'yn!
 Ac heblaw hyny dygai gwmwl du
 Ar orsedd ac ar ddeddfwyr mawr ein gwlad.
 Gogoniant, grym, a nerth priodol holl
 Gyfreithiau Media a Phersia yw eu bod

Yn ddigyfnewid; ac a gollwn ni
 Ein henw a'n bri arbenig er mwyn benyw?
 Arweiniwch fi at y brenin; mi a rôf
 Gynghor effeithiol iddo; sef yw hyn,
 Anfoned allan, swyddwyr yn ddioed
 Trwy holl daleithiau 'r ymherodraeth fawr,
 A chasgler ganddynt o'u gwryfon teg
 Y tecaf oll ynghyd i dŷ y gwragedd,
 A boed i'r brenin ddewis iddo ei hun
 Frenines yn lle Fasti. Chwi gewch wel'd
 Y cwsg yn dawel eto. Byddwch wych!

III.

(Tŷ Mordecai).

Esther gyda gorchwylion y tŷ, yn canu.

Agorodd y môr a'r Iorddonen
 I Israel fyn'd trwodd yn fyw;
 Tiriasant yn Nghanaan yn llawen,
 Gan ganu daioni eu Duw;
 O gaethglud yr Aipht yn ddiangol,
 O ofid yr hen anial maith,
 Yn ngwlad yr addewid ddymunol
 Yn llon gorphenasant eu taith.

Cyfammod Jehofah gyflawnwyd
 Ag Abram ac Isaac yn wir;
 A braich estynedig gwaredwyd,
 A dodwyd eu hâd yn eu tir:

Er gallu a llid y gwastadedd,
 Yn ddiogel preswylant eu bro ;
 Ffyddlondeb eu Duw a'i drugaredd,
 Oedd drostynt, am danynt, yn dô.

Beth ! er fod plant Anac yn lldio ;
 Yr hen Amaleciaid yn fin ;
 A lluoedd Philistia 'n byddino,
 A'u bwriad yn greulawn i drin ?
 Rhyw Samson, neu Gedeon, neu Dafydd,
 Yn brydlawn waredydd a gaid ;
 A nerthol amddiffyn eu Harglwydd
 Oedd beunydd yn gymhorth wrth raid.

Ond heddyw mae 'r hâd etholedig,
 Am fod yn wrthnysig, yn gaeth,
 Eu telyn yn rhwym ar yr helyg,
 Dydd trallod anorfod a ddaeth ;
 Ond er eu ceryddu 'n y gaethglud,
 Duw Israel sydd eto yr un ;
 Yn ol ei hen arfer fe 'u gweryd
 Yn glyd yn ei amser ei Hun.

Pwy wŷr nad oes gweled allorau,
 A hen wlad fy nhadau mewn hedd,
 A gwylio yn ei sanctaidd gynteddau
 I minnau cyn myned i'm medd ?
 Os gwelir fy nhraed byth yn sangu
 Yn llawen ar dir Salem lân,
 Fy enaid ni phaid a moliannu,
 Fy nhafod nis derfydd â'i gân. .

Mordecai yn dyfod i mewn.

Amen ! anwylyd hoff ; yr Arglwydd Iôr
 A roddo dy ddymuniad ; ond ni ddaeth
 Yr amser eto. Yn hytrach ofnwyf fod
 Ffwrneisiau poethach, a threialon mwy,
 I Israel fyned trwyddynt, cyn y daw
 Eu gwardigaeth hollol. Ffiaidd iawn
 Oedd eu camweddau ; ac os bydd y gosb
 A'r cerydd yn gymesur, aml a fydd
 Eu dyoddefiadau. Ofnaf nad yn hawdd
 Nac ar ychydig chwaith y dryllir grym
 Eu calongaledwch. Diau ni iachëir
 Eu briw yn ysgafn ; ond y perffaith Ddoeth
 A'u dwg i'r llwch, ac yna fe 'u gwareda—
FE A'U GWAREDA ! Hawddach yw i'r haul
 Ddiflanu o'r ffurfafen, nag i had
 Yr Israel ballu, canys ynddynt hwy
 Diflanai gobaith y cenedloedd oll,
 Diflanai enw Duw, ac elai 'r byd
 Yn dywyllwch eithaf. Nid all hyny fod.
 Fel y mae 'r enfys yn yr awyr lân
 Yn brawf na ddêl y diluw eilwaith i
 Ddinystrio 'r ddaear ; felly mae parhâd
 Cyfammod Duw âg Israel yn wir brawf
 Y dygir y cenedloedd oll i hedd
 A gwynfyd ynddo Ef cyn diwedd amser.—
 Ond, Esther, gwrando arnaf, mae i mi
 Hysbysiad pwysig i'w fynegu heddyw ;
 Ti glywaist fod y brenin wedi rhoi 'r
 Frenines Fasti ymaith ; ac yn awr

Y mae gorchymyn allan i ddwyn holl
 Fenywod tecaf Media a Phersia ynghyd
 I'w bresennoldeb, fel y gallo ef
 Ddewis o'u plith frenines yn lle Fasti.
 A chan fod dy brydferthwch odiaeth di
 Yn hysbys trwy holl Susan, mae 'r swyddogion
 Wedi gorchymyn dy ddwyn dithau-i'r palas.

Esther.

Myfi ! och fi ! fy nhad, na ddywed hyn,
 Ac na oddefa iddynt fyn'd â mi
 Odditan dy gronglwyd. Mae fy nhad a'm mam
 Yn pydru yn y bedd er's blwyddau maith.
 I mi, amddifad, ti a fuost dad,
 A chyfaill ffyddlawn. O ! na chaniatâ
 Fy nwyn oddiwrthyt. Na throsglwydda fi
 I ddwylaw estroniaid. Gwell i mi yw byw
 A marw yn dawel yn yr annedd hon,
 Na phrofi rhwysg a rhysedd mawrion, a
 Chael ffafrau breiniol, yn enwedig gan
 Frenin cenedlig a gorthrymwr blin
 Fy anwyl Israel.

Mordecai.

A ! fy Esther hoff,
 Da gwyddost fel y'th garaf. Fy mawr serch
 A redodd atat gynta' er mwyn dy dad,
 Ond glynodd, tyfodd, er dy fwyn dy hun
 Yn fwy tanbeidiol. Fy nysgwyliaid oedd
 Cael dy gymdeithas hoff ar hyd fy oes

I ymgysuro ynddo, ac yn mhrydnawn
 Fy niwrnod pruddaidd i gael llewyrch teg
 Dy gariad puraidd, i oleuo 'm ffordd
 I fin y bedd; ond heddyw wele obaith
 Tyneraf, olaf f' einioes yn tywyllu,
 Heb un ymwarded; canys pa beth yw
 Ein gallu ni, plant y caethiwed blin,
 I sefyll o flaen 'wyllys Ahasferus?
 Nis gallwn ond ymostwng; ond pwy wŷr
 Na ddaw daioni o hyn; un rhyfedd yw
 Ein Harglwydd Iôr. Fel cynt, fe ddichon Ef
 O dywyllwch eithaf ddwyn goleuni mawr,
 A gwneyd i amcanion creulawn weithio 'r ffordd
 I gadw ei bobl. Onid felly y bu
 Gyda y prydferth Joseph yn yr Aipt?
 Moses, y bachgen tlws, a fagwyd yn
 Mhalasdŷ Pharaoh ei hun, yn gymhwys i
 Waredu Israel! Esther! pwy a wŷr
 Na wisgwyd tithau â'r prydferthwch cu
 A'r tlyzni swynol yna, er mwyn rhoi
 Cynnorthwy i Israel? Fe allai fod rhyw ddydd
 O drallod mawr gerllaw, ac yna bydd
 Yn werthfawr iawn gael cyfaill yn y llys.

Esther.

Rhyfeddol yw Efe, a diau fod
 Yn perthyn iddo lawer o'r fath bethau.
 A minnau yr annheilyngaf oll o'i blant,
 Yn dawl a aberthwn bob mwynhâd,
 Ac a anturiwn bob enbydrwydd bron,

Os gallwn fod o ryw wasanaeth i
 Hoff deulu Israel. Ond, fy anwyl dad,
 Os dygir fi i'r palas, pan y bydd
 I'r brenin a'i swyddogion ddeall mai
 Iuddewes ydwyf, oni bydd i hyn
 Ar unwaith eu cyffroi, a pheri iddynt
 Fy mwrw allan gyda dirmyg?

Mordecai.

Gwir,

Addfwynaf Esther; ond gan iddynt hwy
 Dy erchi yno, nid oes achos i'w
 Goleuo am dy dylwyth. Nac yngan
 Am Israel wrthynt; ond boed hyny fel
 Cyfrinach werthfawr yn nirgeloedd dwfn
 Dy galon dyner. Gwylia, gwylia byth
 Dy hunan ollwng hyny o dy gof.
 Byth nac anghofia fod gwaed Abraham,
 Isaac, a Jacob, eto yn llifo yn bur
 Yn dy wythienau; cofia 'n wastad mai
 Hebrëes o'r Hebrëaid, un o blant
 Cyfammod y JEHOFAH ydwyf ti.

Esther.

Anghofio Israel! nis gall hyny fod.
 Glyned fy nhafod yn fy ngenau 'n fud,
 Os mi byth a anghofiaf dŷ fy nhad.
 Pe gellid tynu ymaith o fy nghof
 Bob gwrthddrych a drysorwyd yno erioed,

Yn ddyfnaf, isaf, dan y cyfan oll,
 Ar fewnaf lêch fy nghalon, fe geid fod
 Ei enw Ef ac Israel eto yn aros.

Mordecai.

Digon, fy merch, yr Arglwydd a'th fendithio !

IV.

(Hegai a Memuchan yn rhodio yn nghyntedd y brenindŷ.)

Memuchan.

Ha ! ha ! fe garwn wybod beth yn awr
 Ddywed Marsenas am fy synwyr i
 A'm cynnygiadau ? Wele heddyw daeth
 Pob peth i ben yn union fel y dywedais.
 Mae 'r brenin eto 'n ddedwydd ; darfu swyn
 A thlyzni dysglaer yr anwylyd newydd
 Dafu yr hen i ebargofiant llwyr,
 Fel pe na buasai erioed ; ac mae y ddeddf
 Yn anrhydeddus ; a holl wragedd blin
 Media a Phersia wedi derbyn gwerau
 Nas gallant ei hanghofio. Yn y wledd
 Gynnelir yfory er anrhydedd i'r
 Frenines newydd, oni byddaf fi,
 Memuchan, yn brif wrthddrych molawd pawb,
 A Marsenas yn cuddio ei ben mewn gwarth ?
 Ond Hegai, attolwg, a yw yr Esther hon
 Mor anghymharol brydferth ?

Hegai.

Mi erioed

Nis gwelais ei chyffelyb. Er y dydd
 Y daeth i'r palas, hi ennillodd serch
 Pob un a'i gwelodd. Er fod yma ynghyd
 Holl bigion teg benywod teca' ein gwlad ;
 Y fath grynoded o bêr flodau cain ;
 Y fath gydseriad o orddysglaer sêr,
 Na welodd byd ei debyg ; eto y mae
 Ein Hesther yn rhagori arnynt oll,
 Fel lili ar laswellt, neu fel haul ar sêr.

Memuchan.

O ! na chawn olwg arni ! Hegai hoff,
 Mynega i mi 'n fanwl ei phrydfertion.

Hegai.

Annarluniadwy ydynt ! Ynddi y mae
 Pob tlysni 'n cydgyfarfod. Tlysni corff
 A thlysni meddwl, tlysni tymher, rhinwedd,
 A mawredd ysbryd cymhwys i frenines.
 Os bu perffeithrwydd dynol, dyma fe.
 Ceir ambell fenyw megys delw deg ;
 Llinellau prydferth aml-liwiedig ar
 Ei hwyneb welir ; ond er hyn nid yw
 Yr enaid byw 'n deimladwy trwyddynt, ond
 Prydferthwch colofn farw ydyw. Ceir
 Un arall fel angyles yn ei llun,
 A'i doniau hefyd, ond bydd balchder cas

A blinder ysbryd yn arddangos, os
 Angyles hefyd, un syrthiedig yw.
 Nid felly Esther. O! ei phrydferth wedd,
 Mor fynegiannol ydyw! A'i llygaid byw
 Mor llawn o drydan a thynnerwch pur.
 Bywiogrwydd llednais yn serenu trwy
 Ei phob ysgogiad ac edrychiad, nes
 O'r bron nad yw 'n ysbrydoleiddio 'r clai
 O'r hwn ei ffurfiwyd. Gyda hyn i gyd
 Mor bwylllog ydyw—mor feddylgar yw!
 Mor wylaidd, gostyngedig, hynaws, mwyn!
 Yn wir, buasai ei rhinweddau hi
 Yn gwisgo hacrwch hollol â phrydferthwch.
 Myfi a'i haddolaswn, gan mor fawr
 Fy hoffder parchus. Rhoddais iddi 'r lle
 Rhagoraf yn nhŷ 'r gwragedd. A phan ddaeth
 Yr amser iddi ymddangos i Ahasferus,
 Rhoddaswn iddi bob rhyw dlysau teg,
 A dillad drudfawr; ond ni fynai hi
 Ei goraddurno; ond hi aeth i mewn
 Yn nysglaer degwch ei gogoniant syml
 Naturiol hi ei hunan; aeth i mewn;
 Daeth allan yn frenines; ac oes hir
 A dedwydd fyddo iddi, medd fy enaid.

V.

(Mordecai yn eistedd yn y porth.)

Esther.

Henffych, fy nhad!

Mordecai.

Henffych, fy anwyl ferch !
 Cydroddwn ddiolch i'r Llywiawdwr da
 A barodd dy dderchafiad ; fel erioed
 Tad yr amddifaid ydyw ; boed ei ras
 Yn aros ynot byth. Efe, yr hwn
 A gadwodd Joseph dirion yn yr Aipht,
 A Moses hefyd, ac Abiah hoff
 Mewn tŷ annuwiol, a dy gadwo di
 Yn bur a ffyddlawn i dy bobl, ac
 I Dduw dy dadau. Tybiaf eto mai
 I ryw ddybenion da y'th godwyd di
 I wisgo 'r goron. Ac yn wir, nis gwn
 Nad yw yn dechreu eisoes i roi gwaith
 Gwaredu iti. Fel yr oeddwn i
 Yn eistedd yma heddyw, clywais ddau
 O'r ystafellyddion yn cydlunio brâd
 Yn erbyn Ahasferus. Ac ni wnaent
 Un ymgais i'w ddirgelu rhagof! Ah!
 Ni wyddent hwy fod genyf yn y llŷs
 Fath drysor gwerthfawr. Digon tebyg mai
 Ymsynied wnaent y byddai Iuddew yn
 Fwy tebyg i gyduno i dywallt gwaed
 Y brenin na 'i amddiffyn. Ond nid felly.
 Ni weddai i Israeliaid lunio brâd,
 A llech-lofruddiaeth er mwyn dial, neu
 I ymdrech am ein rhyddid. Ein Duw ni
 A wnaeth i'r haul, a'r lloer, a'r sêr, a'r môr,
 Angelion nefoedd, ac ymlusgiaid byd,
 I ymladd drosom. Yn ei amser da

Fe 'n gweryd eto, ac fe dâl y pwyth
 I'n holl elynion. Llwy'r annheilwng f'ai,
 Yn lle ymddiried i'w fyddlondeb Ef,
 I ymdrech trwy gynllwynion creulawn erch
 Fel y cenedloedd. Dos gan hyny yn awr
 Heb aros, anwyl Esther, a dynoetha
 Y bwriad gwaedlyd i fy arglwydd frenin.

Esther.

O! fwriad adgas! O! annynol frâd!
 A hapus waredigaeth! Af yn awr,
 Mynegaf i fy arglwydd yn dy enw
 Y bwriad euog, a diammheu y daw
 Y gwaedlyd fradwyr i ddyledus gosb.

Y DRYDEDD RAN.

I.

(YB OLYGFA—Mordecai a gweision y brenin yn y porth.)

Y gwas cyntaf.

ARDDERCHOG Haman, onid yw ei wedd
Yn wir urddasol, a'i fynediad oll
Yn dywysogaidd! Pa ryfeddod yw
Fod Ahasferus yn ei garu ef,
A'i anrhydeddu gymaint! Nid oes modd
Ymattal rhag ymostwng mewn gwir barch
Ger bron ei fawredd; ac ni feiddia neb
Ond Mordecai yn unig omedd ei
Gydnabod ef a moes ymgrymu iddo,
Yn ol gorchymyn pendant Ahasferus.
Pwy wyt ti, Mordecai? Pwy a pha beth wyt?
Ai gwell neu uwch neu ddoethach wyt na holl
Weision y brenin? Ai mwy na Haman wyt?
Pam y gwrthodi dalu moesgar barch
Ac anrhydeddu y gŵr y mŷn y brenin,
Ac y gorch'mynodd ini ei anrhydeddu?

Mordecai.

Pell ydwyf fi o dybio 'n ffol fy mod

Yn well na chwi ; na, y distadlaf wyf
 Yn mhorth y brenin ; a dymunwn fyth
 Ymostwng i'w orchymyn, a rhoi parch
 Lle byddo yn ddyledus ; ond, yn wir,
 Pan welwyf ddyn gan falchder yn ymchwyddo
 Tu hwnt i fesur, mae fy meddwl fel
 Yn gwrthryfela ; ac nid allaf roi
 Teyrnged o barch rhodresgar pan na bydd
 Fy nghalon yn ei deimlo ; a phe gwnawn
 Ymgrymu i Haman, rhagrith gwag a thwyll
 A fyddai ynof ; a'm cydwybod byth
 A'm hargyhoeddai am waseidd-dra bäs,
 Ac am weinyddu i borthi ffaidd nwyd
 Calon lygredig. Heblaw hyny, a mwy
 Na 'r cyfan oll, Hebrëwr ydwyf fi,
 A theimlaf fel pe gwadwn i yn llwyr
 Fy mhobl, a fy nghrefydd, a fy Nuw,
 Wrth blygu i un o'r Analeciaid cas,
 Gelynion melldigedig Israel gynt.

Ail was.

Hebrëwr ydwyf ! Plant y gaethglud fin ;
 Er holl dynerwch Ahasferus fawr
 A'i weision tuag atynt, para y maent
 Yn wrthryfelgar. Mynaf wel'd yn awr
 A oddef Haman d' wrthnysigrwydd ffol
 A'th bengaledwch. Traethaf yn ddioced
 Dy wag resymau iddo, a diau
 Y llwydda efe yn fuan i'w dilëu,
 A pheri i tithau blygu ac ymostwng.

II.

Haman yn ymson ynddo ei hun.

Mordecai yr Iuddew ! Melldith ar ei ben
 Ac ar ei dylwyth oll ! Wele yn awr
 Waeth er fy mod trwy rym athrylith fawr
 A rhagoroldeb gwreiddiol, wedi 'm dwyn
 Yn uchaf yn y llŷs ; a ffafr y brenin ;
 Media a Phersia yn eu lluoedd oll,
 Ac o bob graddau 'n plygu ger fy mron,
 Gan fy mawrygu ; wele, er hyn i gyd,
 Bob tro yr elwyf trwy y porth y mae
 Mordecai yr Iuddew yn eistedd yn ddi gryn,
 Gan edrych arnaf gyda dirmyg cas
 Yn ngwydd y gweision oll ! Pa beth a wnaf ?
 Efe yn unig a'm hanmharcha, ond
 Mae un yn ormod i'm hanmharchu i ;
 Mae 'n chwerwi fy holl fawredd, mae yn rhoi
 Rhyw anmherffeithrwydd arno ! . Ymhob man
 Yr elwyf weithian, mae hen wyneb du
 Yr Iuddew yn ymrithio ger fy mron,
 Yn chwerwi f' ysbryd ; difa 'm cysur oll.
 Pa beth a wnaf ? Nid yw yn ddigon mawr,—
 Pwy ond y brenin sydd yn ddigon mawr
 I Haman estyn llaw mewn ffordd o ddial,
 A thalu 'r pwyth ? Mordecai 'r Iuddew yn wir !
 Rhy ddistadl yw i mi ymddangos fel
 Yn sylwi arno oll. Eto yn wir
 Melus yw dial ; mynaf ddial iawn,
 Teilwng o fawredd Haman. Dialaf ar

Nid Mordecai yn unig, ond ar ei holl
 Dylwyth i gyd. Ah! mae hen gyfri 'n bod
 Rhyngddynt â'r Amaleciaid; diau fod
 Yr hen Iuddewon adgas ymhob man
 Trwy 'r deyrnas oll fel Mordecai ei hun
 Yn fy anmharchu; pa un bynag, mi
 A'u llwyr ddyfethaf. Gwn pa beth a wnaif;
 Af at y brenin, rhoddaf ger ei fron
 Fod yr Iuddewon yn dirmygu ei air,
 Yn ymgynghreirio i gyd-anufuddhâu
 I'w orchymynion; ac yn dilyn trefn
 O ddeddfau croes i ddeddfau 'r wlad i gyd.
 Af ato yn awr, mynaf awdurdod llawn
 I'w llwyr ddyfetha; wŷr a gwragedd, plant,
 Yr hen a'r ieuainc; mynaf ddiwrnod mawr
 I'w lladd i gyd. Cânt deimlo beth yw nerth
 Digofaint Haman fawr!

III.

(Esther a'i llancesau.)

Esther.

Pa beth yw hyn?
 Mae rhyw iselder dybryd ar fy mron;
 Nis gallaf fi ei ddeall, ac nis gallaf
 Ei ysgwyd ymaith. Mae fy nghorff yn iach,
 A phob peth o fy amgylch yn gysurus;
 Fe ddylwn fod yn llon, ond athrist wyf;
 Ac yn y nos mae aml freuddwydion cas
 Yn fy nghyffroi; ac mae rhyw fraw ac ofn

Yn rhwystro fy ngweddïau ; beth yw hyn ?
 Dychmygu yr ydwyf fod gofidiau blin
 Gerllaw, i mi neu i fy mhobl hoff,
 Fy anwyl Israel. Mordecai fy nhad !
 Pa le y mae ? Edrychais yn y porth,
 Lle yr arferai fod, ond nid yw yno.
 O fel y carwn gael ei weled heddyw,
 A chael ei gynghor ! ydwyf isel iawn !
 Lancesi, a oes neb o honoch oll
 All ddyweyd pa le mae Mordecai ? O'r bron
 Nad ydwyf yn dych'mygu eich bod chwi
 Yn gwybod rhywbeth, gan yr olwg syn
 A deflwech ar eich gilydd, ac yn wir
 Tuag ataf finnau.

Llances gyntaf.

Ein brenines hoff
 A fyddo ddedwydd byth ! dyna ddymuniad
 Eich holl lancesau ; ac ni fynem roi
 Y gofid lleiaf i chwi, ond yn hytrach,
 Ei ymlid ymaith byth. Da gwyddom fod
 Rhyw serch rhyfeddol yn eich mynwes at
 Yr Iuddew Mordecai a'i bobl oll ;
 O herwydd hyny yn wir ni feiddiem ni
 Fynegu yr hyn a glywsom ; ond yn awr
 Nis gallwn lai na gwneyd yn hysbys fod
 Rhyw ofid dirfawr wedi syrthio ar
 Yr holl Iuddewon—

Esther.

Och ! mynegwch im'

Pa ofid ydyw. O! fy mhen, fy mhen!
 Pa drallod newydd eto? A oes neb
 A all fynegu? O! fy Israel hoff!

(Yn wyllo.)

Fy mhobl i ydynt! Onid allaf fi
 Eu cynnorthwyo; neu os nad oes modd
 I roi ymwarded, gallaf,—mynaf fyn'd
 I ddyoddef gyda 'm pobl. Beth a wnaaf?

Llances gyntaf.

Nis gallwn draethu i'ch mawrhydi beth
 Yw natur eu gofidiau; ofnwn fod
 Rhyw achos pwysig iddynt; canys mae
 Mordecai yn gorwedd draw o flaen y porth,
 Wedi ei wisgo mewn sachlian a lludw,
 Gan waeddi â llef uchel, chwerw iawn.
 A chlywsom fod cyffelyb alar trwy
 Yr holl daleithiau ymhlith annedwydd lu
 Plant y caethiwed; clywsom eu bod hwy
 Yn gorwedd mewn sachlian a lludw 'n brudd,
 Mewn ympryd dwys; a bod wylofain blin,
 A chwerw, a thost, ymhlith eu llwythau oll.

Esther.

O! Mordecai anwylaf! Israel hoff!
 Fy mhobl gu yn gorwedd yn y llwch,
 A mi heb wybod! Hwyl oll mewn sachlian
 A lludw,—minnau mewn breninol wisg,
 Yn nghanol mawredd, llawnder, a llawenydd!

Rhaid i mi weled Mordecai 'n ddioed ;
 Anfoner ato i dd'od i mewn i'r porth,
 Fel gallwyf gael ymddyddan gydag ef.

Llances ail.

Anghofiodd ein brenines nad all neb
 Ymddangos oddifewn i borth y brenin
 Mewn gwisg o sach ; oddiallan yn yr heol,
 Ger bron y porth, gorwedda y galarwyr.

Esther.

Rhaid i mi gael ei weled, doed a ddél ;
 Anfonwch wisgoedd cymhwys i'w ddilladu
 Yn lle 'r sachlian ; ac erchwch iddo dd'od
 Yn union i'm cyfarfod yn y porth,
 Fel gallwyf ei gofleidio. Minnau äf
 O'r neillu i ymostwng yn y llwch,
 A galw ar enw yr Arglwydd. Pwy a wÿr
 Na wrendy eto ? Pa beth bynag yw
 Cyfyngder Israel, gall a gwna ein Duw,
 Yn ol ei arfer raslawn, ein gwaredu.

IV.

(Heol y ddinas, o flaen y Porth.)

Hatach.

Anfonwyd fi atat, Mordecai, oddiwrth
 Ein hoff frenines ; hi a glywodd am
 Dy dristwch dirfawr, a dymuna yn daer,

Ar i ti godi o'r llwch, a thafu ymaith
 Dy alarwisgoedd, ac ymdrwsio yn
 Y dillad hyn, a dyfod megys cynt
 I eistedd oddifewn i borth y brenin.

Mordecai.

Myfi i borth y brenin, sydd am ladd
 Fy mhobl oll! Myfi i wisgo 'n glyd,
 A gwych fel yna, ac Israel mewn sachlian,—
 A mi, fe allai, yn achos o'r holl wae!
 Gwyn fyd na wyddai Esther am ein helynt
 Hi deimlai yn ddwys, ac nid oes ond hyhi
 A allai fod yn foddion i'n gwaredu.

Hatach.

Y mae 'r frenines yn dymuno yn fawr
 Dy weled dithau; ac am hyny myn
 I ti ymwisgo fel y gallot dd'od
 I gael ymddyddan â hi yn y porth.

Mordecai.

Nid wŷr fy Esther ddim mor ddygn yw
 Ein profedigaeth, ac mor fawr ein gwae.
 Na chawn fynegu iddi! Ond yn wir,
 Am roddi heibio yr alarwisg hon,
 Ac eistedd megys gynt yn mhorth y brenin,
 Byddai yn warth ar Israel! Nis gall fod.
 Mynegwch i'r frenines fod yr ing
 A'r trallod blin sydd arnom oll mor fawr,

Fel pe deallai hi ein helynt trist,
 Yn lle argymhell gwisg fel hon i mi,
 Gorweddai hi mewn sach a lludw ei hun.

V.

(Y llancesau a'r frenines.)

Esther.

A welodd Hatach Mordecai fy nhad?
 Mynegwch fy llancesau beth a ddywedodd.

Llances gyntaf.

Yn ol gorchymyn ein brenines hoff,
 Anfonwyd cenad gyda gwisgoedd clyd
 I Mordecai alarus; ond efe
 Ni fynai ei gysuro mewn un modd.
 Gwrthodai ei wisgo, ac ni chodai o'r llwch,
 Ni feiddiai ffugymloni, a'i bobl oll
 Mewn dyfnder cystudd; yna gwaeddai 'n drist,
 A thraethai fawr ddymuniad am eich gweled.

Esther.

Rhaid i mi gael ei weled yn ddioed;
 Mae hi 'n brydnawn, ac mae mantelli 'r nos
 Yn agosáu; diosgaf y wisg hon,
 Ac ymddilladaf yn eich diwyg chwi,
 Ac äf i weled Mordecai fy hun
 Ger bron y porth; rhaid imi ei weled ef;

Nid allaf ddyodde 'r pryder hwn yn hŵy,
Mi fynaf wybod faint fy nhrallod yw.

VI.

(*Esther a Mordecai o flaen y porth.**)

Esther.

O! Mordecai! fy nhad! fy anwyl dad!
(Yn syrthio ar ei wddf, ac yn wylo.)

Mordecai.

Esther anwylaf! mor ddiolchgar wyf
Am gael dy weled heddyw; da y gwn
Am dy fawr gariad ataf, ac am nerth
Dy ffyddlaw'n zel dros Israel, a thros Dduw.
Daeth dydd i'w profi; mae dy bobl gu
Mewn dyfnder trallod, mewn cyfyngder caeth;
Na bu ei fwy yn ein helyntion oll;
Ac nid oes gobaith gwardigaeth, na
Diangfa, onis ceffir trwyddot ti.

Esther.

Myfi, fy nhad! O! traethwch o ba le
Y daeth y trallod hwn; heddyw clybŵm
Am dy fawr alar; a than gysgod nos
A'r wisg fenthyciol hon, y daethum allan

* Dywed y Bibl mai trwy Hatach y bu y gyfrinach rhwng Mordecai ac Esther y pryd hwn; ond yr ydys yma, er mwyn crynodeb, wedi eu gosod i ymddyddan wyneb yn wyneb.

I chwilio am danat. O ! mynega im'
 Achos ein trallod ; ac os gallaf fi
 Roi rhyw gynnorthwy, hollol barod wyf.

Mordecai.

Edrych ar yr ysgrifen greulawn hon :

(Yn dangos ysgrifen gorchymyn y brenin.)

Mae 'n ddedfryd farwol ar holl Israel Duw.
 Trwy dy deyrnasoedd oll ; trefnu y mae
 I'w llwyr ddyfetha yn ddiarbed oll
 Wŷr, gwragedd, hen ac ieuainc, mewn un dydd.

Esther.

Och fi ! dinystrio Israel ! ond paham ?
 Ac am ba achos ? Beth a barodd ddwyn
 Fath ergyd greulawn arnynt ? Pwy gyffrôdd
 Ddigter y brenin yn eu herbyn hwy,
 A hwy yn trigo yn llonydd yn y tir,
 Gan amyneddgar ddyoddef eu caethiwed ?

Mordecai.

Breninoedd didduw y Cenedloedd byth
 Ni phrisiant am resymau dros eu llid
 A'u hanfad greulonderau : ond y mae
 Eu rhagfarn a'u casineb byth yn fyw
 Yn erbyn Israel ; ffromant yn ddibaid

Yn erbyn y defodau a'r glân gyfreithiau,
 Sabbathau a gŵyliau a drefnwyd i ni gynt
 Gan Dduw trwy Moses. Heblaw hyn, y mae
 Haman drahausfalch, prif dywysog—gŵr
 Deheulaw 'r brenin o felldigaid hil
 Yr Amaleciaid ; yn eu calonau hwy
 Casineb oesol wedi croni sydd
 Yn erbyn yr Iuddewon. Pallais i
 Ymgrymu i Haman yn y porth, yn ol
 Gorchymyn Ahasferus. Tybiaf weithiau
 Mai hyny a'i cyffrôdd i gynneu lliid
 Y brenin yn ein herbyn. Dïau fod
 Ein beiau mawr yn galw yn uchel am
 Geryddon arnom ; eto pan y'n poenir
 Am lynu wrth ei gyfraith Ef, ac am
 Wrthod ymgrymu i'w elynion, (ac
 O herwydd fod trugaredd gydag ef,)
 Fe allai y'n gweryd eto megys cynt ;
 Mae cyfraith Persia yn ddigyfnewid, ond
 Fe ddichon Duw er hyny agor drws
 O waredigaeth. Pwy all fyn'd i mewn
 I ymbil ac ymhŵedd âg Ahasferus,
 Pwy ond ein Hesther, y frenines deg ?
 Dos, ynte, Esther, dos heb oedi i mewn
 I eiriol dros dy bobl ; pwy a ŵyr
 Na egyr, na thynera Duw ei galon !

Esther.

Ha, anwyl dad, anghofio yr wyt yn awr

Pwy bynag a anturia i bresennoldeb
 Y brenin heb ei alw, a farwolaethir,
 Oddieithr estyn y deyrnwialen aur
 Yn dyner tuag ato. Am danaf fi,
 Ni pharodd Ahasferus i mi dd'od
 I'w bresennoldeb er diwrnodau maith.

Mordecai.

Marw, fy merch, marw fydd raid i ti
 Pa un bynag wnei; na thybia am fynydd awr
 Y diengi yn nhŷ 'r brenin; byddai 'n well
 I farw wrth eiriol dros dy bobl, na
 Dy ladd yn y gyflafan waedlyd sydd
 I ddifa Israel. Neu fe allai daw
 Ymwarded o le arall i'r Iuddewon.
 Yna disgyni di a thŷ dy dad
 I fythol warth am anffyddlondeb, pan
 Mewn cyfle mor ragorol i ymhŵedd.
 Fe allai mai er mwyn yr amser hwn
 Y'th godwyd i'r freniniaeth; byddi 'n wir
 Annheilwng o dy dylwyth os petrusi
 Anturio 'th fywyd tros hoff Israel Duw.

Esther.

Anturio 'm bywyd! O! fy anwyl dad,
 Melus yw bywyd! Melus iawn yn wir
 Mewn iechyd teg ac mewn ieuencyd fr,
 Yn nghanol llawnder a llawenydd llon,

A rhwysg, a mawredd, a chyfeillion hoff,
 Ac uwchlaw gofal. Mae fy nghalon wan
 Yn crynu rhag marwolaeth! Och! fy nhad,
 Maddeuwch im'; 'r wyf yn eich caru fel
 Y gallwn farw drosoch; ond y mae
 Marwolaeth yn ofnadwy. Meddwl am
 Fy nghnawd a'm gwaed yn fferu yn y bedd!
 Y traed a'r dwylaw hyn, a'm calon gynhes
 Yn oeri byth mewn angeu! fy nghlust mwy
 Heb glywed swn cynghanedd na sain hoff
 Lleisiau f' anwyliaid! a fy llygaid mwy
 Heb weled teg brydferthwch daear las,
 Ei choedydd ir, ei glân wyrddlesni pur,
 Y blodau cain yn harddu gardd a maes,
 Teg ffrwythau ei gwinllanoedd heirdd; byth mwy
 Heb weled dysglaer haul, na lloer, na ser,
 Nac adar llon, na 'r mwyn anifail dof,
 Na wyneb dyn ychwaith; ond myn'd i lawr
 I dywyll oer ddystawrwydd maith y bedd!
 I lawr yn more 'm dyddiau, ac i lawr
 Oddiar orseddfainc! Ni buasai 'n wir
 Ond megys dim i ddisgyn i fy medd
 O'm cartref isel gynt; ond O! ar ol
 Fy nghodi i mor uchel, byddai 'r cwmp
 Yn fawr yn wir, yn fawr a chwerw iawn!

Mordecai.

Os bydd y codwm, Esther hoff, yn fwy,
 Bydd hefyd yn fwy anrhydeddus it'

Yn ngolwg Duw a dyn. Marw yn aberth!
 Yn aberth dros dy bobl! Ymhlith holl
 Rinweddau dynol, yr arddunaf yw
 Hunan-aberthiad, dyoddef, marw, er mwyn
 Y rhai a garom. Diau hefyd fod
 Dyoddef tros Israel yn was'naethu Duw.
 Am lynu wrtho Ef y poenir hwynt;
 O honynt hwy mae gobaith i'r holl ddaear.
 Y mae dy ieuencyd, dy brydferthwch teg,
 A'th fawr dderchafiad, diau yn mwyhâu
 Dy brofedigaeth; ond mwyhâ yr un modd
 Deilyngdod a gogoniant dy aberthiad.
 Ti wyddost am y gyfraith; y mae Duw
 Yn derbyn cyw colomen gan y tlawd,
 Iâ, ychydig beilliad; mor drugarog yw!
 Ond mae yr oen neu 'r anner yn fwy cymhwys.
 A pha beth bynag fydd yr aberth, rhaid
 Ei fod yn berffaith a dianaf oll,
 Yn dyodde' ei chwilio gan offeiriaid Duw,
 O fewn ac allan, neu fe 'i troir yn ôl.
 Yr wyt yn brydferth, Esther! ac y mae
 Yn ofid meddwl i'r fath fiodyn cain
 Wywo yn gynamserol; ond yn wir
 Duw a dy wisgodd â'r gordegwch yna,
 A thrwyddo ef a'th ddygodd i dy fawredd,
 A'i eiddo Ef ydwynt; ac y mae dy fawr
 Berffeithrwydd yn dy wneyd yn gymhwys iawn
 I fod yn aberth. Meddwl yn awr, fy merch,
 Am Isaac gynt, fe ymostyngodd ef
 I'w osod ar yr allor gan ei dad,

Heb reswm yn y byd ond y gorchymyn
 Yn noeth a phendant; ond y mae i ti
 Gymaint rhesymau i wynebu 'r tân
 Ag sydd o bobl Israel; cymaint, fe allai,
 Ag yw gwerth gobaith y cenedloedd oll.
 'R wyf yn dychymygu weithiau fod yr holl
 Aberthau a'r offrymau yn cyfeirio
 At ryw un Aberth mawr; ie, a bod
 Aberthiad Isaac yn rhyw gysgod gwan
 I'r un cyfeiriad. Esther, pwy a wŷr
 Na threigla d' enw dithau yn beraidd mwy
 Yn arwydd gogoneddus! Cofia hefyd fel,
 Ar ol llwyr brofi Abram, trefnodd Duw
 Hwrdd yn y dyrysni i gymeryd lle
 Isaac ufuddlawn; felly, ond odid na
 Dderbynia ein Ior dy hunanoffrwm di
 Yn gymeradwy, ac y trefna i ni
 Mewn pryd o ryw le arall ddrws ymwarded,
 Ac y cei dithau 'th fywyd i'w fwynhâu.
 Ond os na chei, na sonia am degwch byd,—
 Am fwyniant a phleserau 'r bywyd hwn,
 Llyncir y cyfan i dir anghof byth
 Mewn awr yn mynwes gynhes Abraham.

Esther.

Digon, fy nhad; mi ni phetrusaf mwy,
 Anturiaf at y brenin; ond, fy nhad,
 Ewch chwithau at yr Arglwydd yn fy rhan,

A chesglwch yr Iuddewon oll ynghyd
I eiriol drosaf gydag ympryd dwys
Dridiau a theirnos ; minnau yr un modd,
Ynghyd a'm holl lancesau, awn i'r llwch
Mewn ympryd a thaer ymdrech gyda Duw.
Nid arfer Ior yw troi 'n glust-fyddar i
Weddiau ei bobl. Er mor sobr yw
Fy mhrofedigaeth, teimlaf rym yn d'od
I'm meddwl eiddil ; gallaf fyn'd i mewn
Dan gysgod gweddi Israel ; äf i mewn ;
Os derfydd yna am danaf, wel, darfydded !

Y BEDWAREDD RAN.**I.**

(Mordecai a'r Iuddewon yn gweddiö.)

Mordecai.

ARGLWYDD Jehofah, Hollallnog Dduw !
 Duw Abram, Isaac, Jacob, ydwyf Ti !
 Buost i'th Israel gynt yn ffyddlawn blaid
 Ymhob cenedlaeth; ac o ganol saith
 Ac wyth o gyfyngderau dygaist hwy
 I ddiogelwch, fel na thyciai lliid
 Na nerth un gelyn yn eu herbyn. Do,
 Ymleddaist drostynt,—ie, gwnest i'r haul,
 A'r ser, a'r môr—elfenau daear oll,
 Ac engyl nef ei hun, i ymladd drostynt :
 Yn nhir yr Aipht, yn nhaith yr anial cras,
 Yn nghanol tônau 'r môr, yn nyfroedd dwfn
 Yr hen Iorddonen, ar alluoedd blin
 Gwastadedd Canaan,—gwelwyd dy arwyddion !
 Ein cadarn Dŵr, a'n Gwobr mawr iawn wyt !
 Ac wele heddyw, ein Ior, at bwy yr awn
 Yn nydd ein trallod blin, ond atat Ti ?
 O ! Arglwydd Dduw ein tadau? Wele, ni

Dy bobl, eto mewn cyfyngder blin,
 Ing, ac enbydrwydd; yn alltudiaid prudd
 O wlad ein tadau; yn wrthddrychau llid
 A malais creulawn annuwiolion, a
 Hil Anac frwnt yn cynllwyn am ein gwaed.
 Tywyll a du iawn ydyw, eto mae
 Ein gobaith ynot—nid anghofi Di
 Dy bobl hoff a adnabuost gynt.
 O! Dduw y duwiau, edrych arnom ni
 Er mwyn dy hen gyfammod, ac er mwyn
 Dy fawr drugaredd! Edrych arnom heddyw!
 Na äd i'r didduw orfoleddu arnom,
 A chablu dy enw mawr! Wele y mae
 Yn nghalon Esther heddyw i fyn'd i mewn
 I eiriol drosom; fe, anturio y mae
 Ei bywyd dros ei phobl: O! ein Duw,
 Bydd iddi yn blaid, a dadl ein dadl ni!
 Y mae calonau mawrion yn dy law;
 Tynera galon Ahasferus fawr,
 A dyro i Esther ffafr yn ei olwg!
 Rho iddi gael ei bywyd,—ninnau oll,
 A'n plant, ein bywyd trwyddi! Arglwydd Ior,
 Edrych a gwared, fel na syrthiom ni
 I ddwylaw dy gaseion. Yna yn wir
 Holl Israel a folianna 'th Enw mawr
 Fmhob cenedlaeth, byth;—

Yr holl Bobl:

Amen! Amen!

Mordecai.

Wel, ewch yn awr, dychweled pawb i'w dŷ.
 Parhâed pob teulu wrtho ei hunan mewn
 Gweddi ac ymryd; felly yn ddïau
 Cynnaliwn freichiau Esther. Pwy a ŵyr
 Na wrendy 'r Arglwydd; gwna, fe wna yn wir,
 Ni thry ein gweddi oddiwrtho, na'i sawr rad
 Oddiwrthym ninnau; cwbl gredu 'r wyf
 Ceir gweled heddyw Ei ryfeddol law
 Mewn pryd fel cynt i wared. Ac yn awr
 Minnau ddyosgaf y sachlian hon,
 Ac äf i borth y brenin, fel y caf
 Yno heb oedi glywed tynghed Esther,
 A ninnau ynddi. Er nad allaf gyd-
 Weddio ä'm teulu, mi ni pheidiaf roi
 Saethweddi ac och'neidiau tua'r nef.

II.

(Esther a'i Llancesau.)

Esther.

Wel! bellach dygwch fy mreninol wisg,
 Fy ngeman cain, a'm haddurniadau oll;
 Mynwn ymddangos ä mawr barch o flaen
 Y brenin heddyw; a phan welo efe
 Y gwisgoedd drud a'r perlau gwerthfawr teg
 A roddodd ef i mi yn oriau llon

Ei gariad cyntaf, fe allai y deffry 'r cof
 Dynnerwch ynddo, y gwrendy ar fy nghais,
 Neu o'r hyn lleiaf yr arbeda 'm bywyd.
 Mae f' ysbryd prudd yn wan, ac eto pan
 Y cofiaf am weddïau fy hoff Israel,
 Nid wyf heb obaith; chwithau, ferched hoff,
 Parhëwch i erfyn drosod.

Un o'r Llancesau.

Rhoddem oll
 Ein bywyd drosot; teimlo yr ydym fel
 Pe byddai ein bywydau ninnau yn
 Y chwareu heddyw; ac nid allwn lai
 Na thaer weddio trosot. Credwn oll
 Nad all y brenin ond dy garu fel
 Yr amser gynt, pan welo ger ei fron
 Dy deg brydferthwch. Diau nad all serch
 Angherddol felly droi 'n greulondeb cas.
 Ac heblaw hyny, yn wir ni äd dy Dduw
 I'th gariad at dy bobl, a dy zel,
 Ddybenu mewn marwolaeth; nid all fod.

Esther.

Wel! deuwch, awn i'r cyntedd, daeth yr awr:
 O! Dduw fy nhadau, cynnal f' ysbryd gwan!

III.

(*Ahasferus ar ei orsedd yn gwelod Esther yn y cyntedd.*)

Ahasferus.

Ha! Esther, fy anwylyd! Rhyfedd iawn!
 Y mae dy ddelw wedi bod ger bron
 Fy nghof a'm serch er pan ddeffröais heddyw,
 A rhyw ddwys hiraeth tyner am dy wedd!
 Tyred i mewn, fy hoff anwylaf wraig.

(*Yn estyn y deyrnwialen aur; Esther yn cyffwrdd â'i phen hi.*)

Ond pa ryw bryder sydd yn gorphwys ar
 Dy wyneb hawddgar? Gwelaf yna fod
 Rhyw ofal pwysig arnat; traetha yn awr;
 A pha beth bynag ydyw dy ddymuniad,
 Hyd hanner fy holl deyrnas ti a'i cei.

Esther.

Byw fyddo 'm Harglwydd frenin! Gan i mi
 Gael ffafr yn dy olwg, minnau yn awr
 Ni cheisiaf ond i'r brenin heddyw dd'od
 Ynghyd â Haman i fwynhâu y wledd
 A barotöais iddynt.

Ahasferus.

Dyna 'r cyfan!

Pa le mae Haman? Erchwch iddo dd'od
 Heb oedi i'r brenindŷ, i gael rhan
 Gyda myfi o'r wledd bar'töodd Esther.

IV.

(Haman, a'i wraig, a'i gyfeillion.)

Haman.

Gelwais am danoch, fy nghyfeillion hoff,
 I adrodd i chwi yr anrhydedd mawr
 A gefais heddyw, fel y gallech oll
 Gydlawenhâu â mi. Mawr wyf yn wir!
 Pwy ond y brenin sydd yn fwy na mi?
 Wele yn awr fy nghyfoeth dirifedi,
 Fy nhiroedd breision äang; fy holl braidd;
 Fy ngweision a'm trysorau; mwy nag oll,—
 Fy neg mab gwrol a fy merched teg;
 Pwy yn yr holl deyrnasoedd äang hyn
 Gymherir â myfi? Y brenin sydd
 Wedi fy nghodi uwch ei weision oll,
 Yn nesaf mewn anrhydedd ato ei hun.
 Ac wele heddyw y frenines fwyn,
 Y brydferth, hawddgar, a rhinweddol Esther,
 A barotôodd wledd i mi a'r brenin.
 Ac ni wahoddwyd neb ond mi fy hun
 Yn unig gyda 'r brenin; ac yfory
 Gwahoddwyd fi eto ati gydag Ef.

Y Cyfeillion.

O! Haman fawr! O! ddedwydd, ddedwydd ŵr!

Haman.

Dedwydd yn wir! yr annedwyddaf un

O bawb wyf fi ; oblegid pa lesâd,
 Er bod yn llawn anrhydedd, pan y mae
 Mordecai 'r Iuddew yna yn y porth
 Yn fy nirmygu? Wele pan yn llon
 Y deuais heddyw o'r urddasel wledd,
 Yn wrthddrych sylw ac edmygedd pawb ;
 Gweision y brenin oll yn crymu i lawr
 I'm hanrhydeddu—ond yr Iuddew hwn
 Nid ymostyngai ; safai yn ddi-gryn,
 Edrychai arnaf gyda dirmyg cas !
 Yr adyn hyf a brwnt ! Diau y gŵyr
 Fod dydd dialedd yr Iuddewon oll
 Yn agosâu, ond nid oes ofn na pharch
 Na gobaith yn ei blygu,—teimlwn lid
 Yn cyffro f' ysbryd, a gallaswn bron
 Ei daro yn y fan, ond ymatteliais.

Un o'r Cyfeillion.

Fy arglwydd Haman, pam y rhaid i ddyd
 Mor ddistadl â'r Iuddew hwn gyfiroi
 Dy ysbryd ynot, pan mae llewyrch haul
 Dysgleiriaf llwyddiant yn pelydru i'th ran
 O bob cyfeiriad? Wele y mae islaw
 I urddas Haman sylwi ar y fath un,
 Na theimlo dim o'i herwydd mewn un modd.

Haman.

Teimlo! mae 'n annyoddefol! yn y porth!
 Anmharchu Haman beunydd yn y porth!

Yn ngwydd y gweision oll, a hwy 'n ddiâu
 Yn cenfigenu eisoes at fy llwydd.
 Pa beth a wna? mae 'n chwerwi fy holl gysur
 Mae 'n ysu f' ysbryd; d'wedwch, beth a wna?

Zeres, gwraig Haman.

Croger yr Iuddew adgas megys ci!
 Mi a'i crogwn ef fy hun; fy Arglwydd hoff,
 Na flina d' ysbryd mwyach yn ei gylch;
 Yfory bydd y brenin yn llawn gwin;
 Nid rhaid i ti ond crybwyll wrtho ef,
 Cei genad i'w ddybenu yn y fan.

Y Cyfeillion oll.

Da iawn, da iawn! nid all fod cyngor gwell.

Zeres.

Cyfodi crogbren iddo heno wnawn
 Yn ddeg a deugain o guffyddau llawn,
 Fel gallo yr Iuddewon oll ei wel'd,
 A chym'ryd rhybudd.—Tyred, Haman gu,
 Bydd lawen heno; nac ymfina mwy,
 Cei wleda yfory, a Mordecai yn nghrog!

Haman.

Da iawn, fy Zeres! gwneler yn ol dy air.

Y BUMMED RAN.

I.

(Haman yn ymson yn nghyntedd y brenin.)

Fe ddaeth y boreu o'r diwedd; tybiais i
 Na buasai 'r nos yn darfod, gan mor flin
 Ymdreiglwn ar fy ngwely. Meddwl am
 F' anrhydedd ddoe a heddyw yn y llŷs—
 Meddwl drachefn am Mordecai 'n y porth—
 Nid allwn orphwys, ciliai cwsg yn llwyr.
 Ha! Iuddew cas—gwelais dy grogbren ban!
 Gan fod y ddedfryd i ddinystrio 'r hil
 Iuddewig oll mor fuan, yn ddïau
 Ni falia 'r brenin ddim dy grogi di
 Yohydig cynt er mwyn fy moddio i.
 Daethum yn foreu heddyw er mwyn cael
 Y wledd o'th grogi 'n gyntaf; yna äf
 Yn llon i wledda gydag Esther deg.

II.

(Y Brenin yn ei ystafell.)

Pwy sydd mor foreu 'n rhodio yn y porth?

Y Gweision.

Haman, ein Harglwydd.

Y Brenin.

Brysied, doed i mewn.

(Wrth Haman.)

Deuaist yn foreu, Haman, ac yn wir
 Yr oeddwn i ar fedr anfon un
 I'th gyrchu yma er mwyn dy gynghor doeth.
 Mynega im' pa fodd y dylwn wneyd
 I ŵr y mynwn ei fawr anrhydeddu?

Isman (o'r neilldu).

Pwy all hwn fod? pwy ond myfi fy hun?
 Rhyw godiad newydd eto! ceisiaf ddigon.

W h y Brenin).

O rhynged bodd i'm Harglwydd, tybiwyf fi
 Mai yr anrhydedd uchaf ellid roi
 Ar unrhyw ŵr, a fyddai ei wisgo ef
 A'r wisg freninol, a'i roi ar y march
 Ferchyg y brenin, a rhoi 'r goron aur
 Freninol ar ei ben, a pheri iddo
 Farchogaeth trwy y ddinas oll; ac un
 O weision uchaf oll y brenin fel
 Arweinydd iddo, gan gyhoeddi o'i flaen,
 Fel hyn y gwneir i'r hwn y myn y brenin
 Ei anrhydeddu.

Ahasferus.

Dyna gynllun da,
 Nid rhaid ei wella. Neithiwyr trwy y nos
 Nid allwn gysgu. O! fe dybia rhai
 Mai gwely esmwyth a chwsg tawel sydd
 Bob amser gan y brenin; ond yn wir
 Bydd pryder, gofal, ofn, yn fynych iawn
 Yn ymlid ymaith gwsg; weithiau ni ddaw
 Oblegid gorlawenydd; weithiau yn wir
 Oblegid gormod gloddest a glythineb.
 Melus yw hŷn y gweithiwr, er yn dlawd;
 A byddaf weithiau bron yn cenfigenu
 Wrth ei ddiotal hŷn. Nis gwn paham,
 Ond neithiwyr mi nid allwn gysgu dim,
 Ymdreiglais oriau ar fy ngwely mwyth
 Nes blino yn llwyr, a chodais yn y man;
 Ac er mwyn treulio oriau annifyr nos,
 Erchais am ddwyn coflyfrau 'm hoes i lawr,
 A'u darllen imi. Cefais yn y rhai'n
 Hanes y waredigaeth gefais gynt
 Rhag Bigthana a Theres, fradwyr, pan
 Y ceisient fy llofruddio. A chael yr wyf
 Na roddwyd dim anrhydedd ar y gŵr
 Dd'rysodd eu hamcan gwaedlyd, a thrwy 'r hwn
 Cefais fy mywyd. Nid yw hyn yn deilwng
 O frenin Persia;—fy ewyllys yw
 Ar i ti ddwyn y wisg, a'r march, a'r goron,
 A gwneyd y cyfan oll fel y dywedaist
 I Mordecai yr Iuddew.

Haman (yn gwelwi)

Mordecai yr Iuddew!

Ahasferus.

Mordecai yr Iuddew—Haman. Pam y mae
Dy wedd yn newid a dy lais yn crynu?
Beth, ai ni fyni di yn llon fawrhâu
Yr hwn yn ffyddlawn a'm hachubodd i
O law llofruddion? Dos, heb oedi; y mae
Mordecai 'n eistedd yn y porth. N' âd ddim
O'r oll a ddywedaist heb ei wneuthur iddo.

III.

(Ymson Mordecai ar ol dychwelyd o'i anrhydeddu yn y ddinas).

Wel! rhyfedd! ryfedd! Arglwydd, cadw yn awr
Fy meddwl heb gyffroi, a'm hysbryd gwan
Heb gyfeiliorni. Dyro i mi yn ddoeth
Iawn farnu am y rhodres mawr a'r rhwysg
A'r gwych dderchafiad sydyn gefais heddyw,
A dyro i mi gofio mai Tydi,
Fy Nuw, yn unig sydd yr un o hyd,
A gwedd dy wyneb graslawn arnom sydd
Yn wir fawrhâd. Attolwg! beth yn awr
Yw ffafr y brenin werth? Gadäwyd fi
Flynnyddoedd yn nhir anghof; mewn un awr
Fe 'm hanrhydeddwyd; eto, mewn un awr,
Fe allai, y'm hanghofir, a cháf fyw

Byth mwyach mewn neillduedd. Da i mi
 Fod genyf Dduw,—Duw Israel yn ty rhan!
 Pa beth i mi, floeddiadau gwag y llu
 Cenedlig heddyw? A Haman fawr ei hun
 Yn gweini arnaf! Haman, druan ŵr!
 Yr oedd y mawredd roddwyd arnaf fi
 Yn dristwch a thrueni iddo ef.
 Gwelwai ei wedd, crynai ei ddwyllaw pan
 Yn fy arwisgo â'r addurniadau drud.
 Druan o hono, er mai gelyn yw,
 Ac Amaleciad balch, nid allwn lai
 Na theimlo ryw dosturi yn-fy mron
 Oblegid ei fawr gyni. Fe allai fod
 Llaw Duw yn hyn, oblegid mae Efe
 Yn tynu 'r balch i lawr, a chodi 'r tlawd
 O'r llwch i'r lân. Moler ei enw byth!
 Hyderaf bellach fod ei gadarn fraich
 Eto am wared Israel. Ddoe fe ro'dd
 I Esther ffafr y brenin; heddyw daeth
 Ei ffafr i minnau; bron na thybio yr wyf
 Mai ernes ydyw hyn o'r ffafr fawr
 A wneir i Israel; ïe, felly y mae;
 Tyred, fy enaid, a mawrhâ dy Dduw!

IV

(Haman a'i wraig a'r doethlon; Haman yn bryso f'w dŷ & gorchudd ar ei ben).

Och fi! fy ngwraig! och! dyma alaeth mawr!
 Yr wyf yn d'rysu, cynnorthwya fi!

Bryisiais y boreu heddyw yn ol dy air
 I ofyn gan y brenin ganiatâd
 I grogi Mordecai. Cyn i mi dd'weyd
 Fy neges wrtho, rhoddodd i mi orchymyn
 I'w anrhydeddu ef yn uwch na phawb !
 A gwaethaf oll myfi fy hun a rôdd
 Y cynllun o'i anrhydedd, yn y dyb
 Mai fi ei hoff dywysog oedd yn mryd
 Y brenin i'w ddyrchafu. Mae fy mhoen
 Yn chwerw megys angeu. Beth a wnaif?

Zeres.

Drwg iawn yw hyn. Rhodded y duwiau oll
 Nad dechreu drygyd ydyw : ofni yr wyf
 Yr hen Iuddewon hyn. Ond wele yn awr
 Yr oeddwn i yn siarad â'r dewiniaid ;
 Fe allai y gallant hwy trwy ryw fawr swyn
 Attal yr helynt, eto.

Haman.

Traethwch im',

O ! traethwch, ddoethion, a oes unrhyw fodd,
 Trwy eich doethineb chwi i attal hynt
 Lwyddiannus Mordecai, ac eto i droi
 Y brenin yn ei erbyn ; onidê
 Fe ddryllir fy nghynlluniau oll yn llwyr,
 A minnau hefyd syrthiaf o flaen nerth
 Yr Iuddew distadl ac adgas hwn.

Y Doethion.

Boed hysbys i ein harglwydd, os yw 'r gŵr

O'r hil Iuddewaidd, yna, nis gall holl
 Ddewiniaid Persia ei orchfygu ef.
 Rhy dda y gwyddom, nad oes unrhyw swyn
 Nac un gyfaredd lwydda yn erbyn Israel.

Cenadon y Brenin.

Anfonwyd ni gan Ahasferus frenin
 I'th gyrchu di i'r wledd bar'tôodd Esther.

Haman.

Gwledd i mi yn wir! och fi! pa beth a wnafl!

V.

(Y brenin a Haman yn ngwledd Esther.)

Y Brenin.

Yn awr, fy Esther hawddgar, adrodd im'
 Beth yw 'th ddymuniad; rhoddaf heddyw i ti
 Dy holl ddeisyfiad; ie, rhoddaf hyd
 Hanner fy nheyrnas; gofyn i mi yn llawn.

Esther.

Fy arglwydd frenin, rhynged bodd i ti,
 Os cefais ffafr heddyw yn dy olwg,
 Roi imi f' einioes; ac i'm pobl oll
 Dyro eu bywyd, dyma yw fy nghais.
 Oblegid wele, O! frenin, gwerthwyd ni;
 Myfi a'm pobl Israel werthwyd oll
 I'n llwyr ddinystrio. Ië, gwerthwyd ni

Nid i gaethiwed, ond i'n llwyr ddileu
 Mewn lladdfa waedlyd, ac er colled fawr
 A gwarthrudd hefyd i'th freniniaeth di.

Y Brenin.

Dy werthu di a'th bobl! Esther, pwy?
 A pha le mae yr adyn luniai 'r fath
 Anfadwaith ffol a chreulawn?

Esther.

Wele 'r gŵr,
 Y gelyn a'r gwrthwynebwr ydyw hwn—
 Haman ddrygionus hwn sydd ger dy fron.

(Haman yn gwelwi ac yn crynu—y brenin yn neidio i fyny mewn
 digllonedd, ac yn cilio i ardd y palas—ac yn ymson yno.)

Yr adyn balch maleisddrwg, dyma 'r gŵr
 A godais o'r iselder, ac a'i gwnês
 Yn fwyaf yn fy nheyrnas, ac a'i llwythais
 A chyfoeth ac anrhydedd; wedi 'r oll
 Fe 'm cymer yn ôfferyn yn ei law
 I arllwys ei genfigen bustlaidd ar
 Fy neiliaid i fy hun! Wele 'r Iuddewon
 Yn trigo yn ddiniweid yn y tir,
 Yn dawel ac yn ddiwyd; ac heb fryd
 Na gallu i wrthryfela. Lladd y rhai'n!
 Byddwn y brenin mwyaf ynfyd, ffol,
 A chreulawn, wisgodd goron. Ond pa fodd
 Dygwyddodd hyn? Trwy pa uffernol dwyll
 Y cafwyd fy awdurdod i'r fath waith?

Fe allai mai o dan ddylanwad gwin
 Y twyllwyd fi â chamhysbysiad am
 Y bobl druain, ac yr hudwyd fi
 Yn fyrbwyll i'w collfarnu. Amlwg yw
 Mai oddiar ryw fantais iddo ei hun
 Y lluniodd Haman hyn. Gŵr fy neheulaw
 Yn troi yn fradwr! Ië, yn ceisio bywyd
 Fy hoff, fy hawddgar Esther, ei frenines!
 Anghenfil anfad! Mynaf ben ar hyn.

(Yn dychwelyd i'r palas—Haman yn ei fraw wedi syrthio ar wely
 Esther, gan erfyn.)

O! fy mrenines anwyl, maddeu im'!
 Ac eiriol am fy fywyd, yna yn wir
 Achubaf yr Iuddewon.

Y Brenin.

Beth yw hyn?

Ai treisio y frenines yn fy nhŷ
 Y mae efe? Ymaith â'r bradwr hyf!

Harbona.

Wele, darparodd Haman grogbren mawr
 Yn ddeg a deugain o guffyddau 'n llawn
 I grogi Mordecai, yr hwn achubodd
 Fywyd y brenin.

Y Brenin.

Croger ef ar hwnw!

Y CHWECHED RAN.

I.

(Esther a'r Brenin a Mordecai ynghyd.)

Esther (yn wyllo.)

O rhynged bodd i'm Harglwydd roddi im'
 Gael ffafir yn ei olwg, ac na ád
 Ddinystrio fy holl bobl; wele yn awr
 Galwer yn ôl lythyllau Haman ddrwg
 Y rhai a ysgrifennodd ef i'w herbyn.

Y Brenin.

Wele, fy Esther hoff, fe roddais dý
 A chyfoeth Haman oll yn eiddo i ti;
 A'r fodrwy freiniol dynais oddiwrtho,
 A roddais i fy ffyddlaw'n Mordecai, yr hwn
 Sydd deilwng o'm hymddiried. Mynwn hefyd
 Achub dy bobl; ond nid ellir troi
 Yn ôl yr hyn anfonwyd o tan sél
 Modrwy y brenin. Ysgrifennwch chwi
 Lythyllau eto dros y bobl hyn
 Trwy 'r holl daleithiau, fel y gweloch oreu,
 Yn enw 'r brenin, gyda chaniatád
 I'r holl Iuddewon sefyll am eu heinioes
 Yn erbyn eu gelynyon. Rhoddwch sél
 Y brenin wrthynt; a'ch Duw a'ch gwaredo!

II.

(Cân Esther.)

Clodforer Duw âg uchel lef
 O ddaear lawr i nef y nef,
 Oblegid Ei drugaredd Ef
 A bery yn dragywydd.

Efe arweiniodd Abraham,
 Isaac, a Jacob, gam a cham ;
 Ni phaid eu hanthem nefol am
 Drugaredd yn dragywydd.

O wlad yr Aipht, ar waelod môr,
 Trwy 'r anial maith, yn llaw yr Ior
 Diangodd Israel am fod 'stor
 Trugaredd yn dragywydd.

Er llid breninoedd fwy na mwy,
 Daeth Canaan deg i'r Israel trwy
 Fod gan yr Arglwydd iddynt hwy
 Drugaredd yn dragywydd.

Ac er eu bod ar hyn o dro
 Yn gaeth ymhell o'r hyfryd fro,
 Ni syrth yr Israel byth dros go'
 Trugaredd yn dragywydd.

Fe wawria eto 'r hyfryd ddydd
 Y daw y teulu hoff yn rhydd,
 A gwel y ddaear oll y bydd
 Trugaredd Duw 'n dragywydd.

Nid rhaid i Israel ofn a braw,
 A hi 'n ddiogel yn Ei law;
 I deulu Jacob gu fe ddaw
 Trugaredd yn dragywydd.

Os dygwydd profedigaeth brudd
 A chwmwl tew ar lawer dydd,
 Er hyn fe ddaw i deulu fydd
 Drugaredd yn dragywydd.

Y mae ei lwybrau Ef yn llawn,
 O ryfeddodau dyfnion iawn,
 Ac ynddynt oll yn amlwg cawn
 Drugaredd Duw 'n dragywydd.

Dyryswyd llid gelynyon cas
 Trwy Mordecai, Ei fyddllawn was,
 Am fod yn Nuw gyflawnder gras
 Trugaredd yn dragywydd.

A minnau fel o farw 'n fyw
 Waredwyd! O! rhyfeddol yw!
 Yn unig am fod gyda 'm Duw
 Drugaredd yn dragywydd.

Pan oedd yr Israel yn llwfrhâu
 Gan gystudd dwfn, ac ing, a gwae,
 Profasant eilwaith yn parhâu
 Drugaredd Duw 'n dragywydd.

Ar ben y gelyn cas y daeth
 Y gwarth, y dystryw llwyr, a'r aeth;

Ond dyma gyfran Israel gaeth,
Trugaredd yn dragywydd.

Cyhoedder uchel wyl yn awr,
A chadwer hi tra pery llawr,
I foli Duw am fod Ei fawr
Drugaredd yn dragywydd!

12

Pregethwr y Babl,

NEU

FYFYRDODAU A ACHLYSURWYD

GAN FARWOLAETH Y

PARCH. JOHN JONES,

TAL-Y-SARN.

GAN GLAN ALUN.

Awdwr "FY CHWABE," &c.

"YE YDOEDD GWR WEDI EI ANFON ODDI WETH DDUW, A'I ENW IOAN."

AIL ARGRAFFIAD.

WYDDGRUG:

ARGRAFFWYD GAN HUGH JONES.

—
1858.

IR

PARCH. LEWIS EDWARDS, D.D.,

BALA,

FEL UN O GYFEILLION MYNWESOL

Y DIWEDDAR BARCH. J. JONES

AC FEL UN O GYFFELYB YSBRYD IDDO,

Y CYFLWYNIR Y BRYDDEST HON,

YN ARWYDD O WIR BARCH A SERCH

YR AWDWR.

AT Y CYMRY.

Nid oes gan yr Awdwr un egsusawd tros gyhoeddi y myfyrdodau hyn, gan fod cynnifer o gyfansoddiadau wedi ymddangos eisoes, yn dwyn perthynas a'r un testyn, ond, "Fel hyn y gwneir i'r hwn y mae y nos yn chwenych ei anrhydeddu."

Fe wel y prif-feirdd enwog sydd wedi cyhoeddi "marwnadau" i'r Parch. J. Jones, oddiwrth y llwybr hollol wahanol a gymerwyd yn y Bryddest hon, fod ei hysgrifenydd yn ddigon pell oddiwrth ryfygu gosod ei hun mewn ymgystadleuaeth â hwynt.

Diammau fod y maes yn ddigon helaeth i eraill ddilyn. A phwy bynag a ystyria nad yw yr adgofton hyn yn deilwng i'w gwrthddrych, ni bydd neb yn swy teimladol o hynyn na'r hwn a'u hysgrifenodd.

Mehfin Iaf, 1858.

PREGETHWYR Y BOBL,

&c.

I.

Ryw foren tawel teg yn nechreu haf,
Ar ardal neillduedig bell o'r byd,
Y prysur fyd masnachol, codai'r haul,
A'i dwym belydrau, megys gwenau cawr,
Yn lloni anian trwyddi. Hen haul gwych !
Bôd mawr didderbyn-wyneb ydyw ef;
Gwasgara ei diriondeb yr un modd
I fawr a bach, i'r gwladaidd ac i'r gwych ;
Tywyna ei oleuni trwy y dêllt,
Cusana amrant y cardotyn tlawd
Ar wely gwellt, 'r un eiliad ag y traidd
Ffenestri y palasdŷ, ac y syrth
Ar gwrlid y pendefig. Gwena'n llon
Ar bentref bâch yn nghwr y mynydd llwm
Yn union fel ar dyrau'r ddinas fawr.
Ni phrisia'r haul ddim inwy roi goleu a gwrês
I lwyni pin, ac aur afalau drud,
Nag i dwmpathau grug ac eithin gwyllt.
Cyfranwr hael a chyfiawn fel ei Grewr ;
Siriola byd ar ei gyfodiad ef,
A llonir pob creadur byw a'i gwel
O'r angel i'r morgrugyn. Henffych Haul !

Hawddamor iddo. Yn wir nid rhyfedd fod
Y rhai ni wyddant pwy a wnaeth yr haul
Yn ei addoli ef. Ond rhyfedd iawn,—
Os yw gwaith Duw yn ddigon i roi dyn
Ar ddeulin i addoli,—rhyfedd fod
Y dyn a ga'dd wybodaeth am y Crewr,
Heb ei barhaus a'i wir addoli Ef!

Y boreu hyfryd uchod gwelid torf
Yn cyd ymgynnull i addoli, nid
Yr haul, ond ei Greawdwr mawr ei hun,
Ar un o'i uchei wyliau. Ar bob llaw,
O bob rhyw gilfach yn ystlysau cudd
Yr hen fynyddoedd ffrydia llu i lawr ;
Gwyr, gwragedd, meibion a rhianod têtg
Yn gu deuluoedd deithiant tua'r cwm ;
Ac at y pentref bach cyfeiriant oll
O'r pedwar pwynt, a'u bryd ar gyd addoli.
Mewn maes cauedig y crynhoar llu
Ar ddaear a gysegrwyd lawer tro
Gan fendith Ddwyfol. O ! addoldy gwych,
A theilwng deml i'r gornchaf Dduw
Yw'r greadigaeth ! Llusern fawr y nef
Oleua'r dyrfa, ac awel beraidd iach
Yr oesol fryniau a awyra'r tŷ.
Y glaswellt îr yn *garped* têtg dan draed,
A hardd ystlysau ac oriwlau 'r lle

Yn addurnedig gan ddoethineb Duw.
Ni ocheneidia y creadur trist
Yn llwythog yma, ond gwena ar y dyn.
Ger bron y dyrfa fe gyfoda cu
Anwyliaid yr eglwysi, dynion Duw,
Sef gwŷr y doniau mawr, a'r per eneiniad.
Dadblygant yma faner fawr y gfoes
Ac efengylant athrawiaethau gras
I'r dyrfa astud. Mewn cartrefol wisg
Hen ddiwyg seml y Cymry, saif y dorf
A'u miloedd o wynebau tua'r lle
Y gwelir y llefarwr. Dysclaer y'nt
Eu llygaid weithiau gan lawenydd llon
Ac weithiau'n llaith gan ddagrau; ambell waith
Fe gerdda'r ddwys ochenaidd trwy y dorf,
Yr "Amen" mawr, neu'r "Bendigedig" twym.
Fel daear sech yn yfed iraidd wlith
Neu wlaw cynarol, yf yr hapus lu
Gu air y bywyd. Llawer calon bur
A meddwl sancteiddiedig sydd yn cael
Rhyw "swper" mawr ar fwrdd efengyl fwyn;
A llawer meddwl coeth. er nad yn gwir
"Adnabod yr hyfrydlais," eto sydd
Yn gwledda hyd ddigonedd ar hoff ddawn
Ac ar athrylith gysegredig dyn.

Yn nghwr y dyrfa gwelaf fachgen bach ;

Un bochgoch tlws yw ef, ei lygaid y'n t
 Yn craffu yn ddirif ar weinidog Duw
 A'i enau sydd yn lled agored, fel
 Pe mynai lyncu pob ymadrodd ddaw
 Tros ei wefusau. Gyda llathen fawr,
 O fachgen bach, mesura hyd a lled
 Y bregeth a'r pregethwr. O! fel mae
 Ymadrodd fraeth ac ymresymiad cryf
 Yn ei wfreiddio. Traidd pob syniad mawr
 A phert gydmariaeth trwy ei galon ef;
 Rhed drosto fel rhyw swyn, nes y bo holl
 Gynneddfau i enaid a holl iau ei gorff
 Yn gyffro trwyddynt.—Nid gwrandaawr gwael
 Cyffredin y doedd hwn,—pregethwr bach,
 Pregethwr yn y plisgyn, ac yn ngwrês
 Dawn Duw a dyn, addfedu'n gyflym wna
 A sicr at ddeoriad.

Ganol dydd

Gwasgara'r dorf luosog yma a thraw
 I ymfyn lluniaeth. Caiff y bobl fawr,
 Y gwyr a'r gwragedd, wahoddiadau taer
 Ac aml i giniawa. Ond am John
 Ein bachgen hoffus, ni ofala neb;
 Ni wyddai neb am dauo. Tebyg iawn
 Mai prin y dysgwylasai ei fam ei hun
 Fath ragor mawr yn "y bachgenyn hwn"

Uwchlaw rhyw fechgyn ereill. Teimlai Ef
 Ryw fawredd eisioes yn ymsymud yn
 Ei ysbryd ieuanc. Ciliai o'r naill du,
 I fwyta'r tamaid a ddygasai o dre',
 Gan dori ei sychedd yn nghrisialaidd ffrwd
 Yr aber fach gerllaw. A chyda'i brŷd
 Meudwyaidd elai 'n fanol dros
 Yr hyn a glywsai. Ail swynhâ yn awr
 Yr hyn oedd brydferth, a gwel yn mha le
 Gallasai wella gwallau. Ac yn y teimlad hwn
 Neidiai i fynu, a cherddai tu a'r maes
 Gan sathru'r irwellt, a'r briallu mân,
 A llygaid-y-dydd, gyda rhyw yni newydd,
 Ac meddai ynddo ei hun, "Pe gwyddent hwy
 Pa fath bregethwr mawr a fyddaf fi,
 Mi gawswn innau giniaw."*

Mae yr hâd

Mewn dyfnder daear; mae y gwreiddiau bach
 Yn cadarn gydio, a'r eginin ir
 Yn tarddu allan; gwaethaf gallu'r byd
 I'w gadw mwy i lawr. Os na chaiff ddod
 Yn sŷth i fynu, amgylchyna graig
 I gyrhaedd awyr iach, ac agor allan.

* Nid dychymyg yw hyn, ond ffaith, o adroddiad J. J. ei hun, am ei deimlad pan yn blentyn.

Hen gudd lanerchi Dolyddelen draw
 Yn unig wŷr am bob eiddigus gwrdd
 Ac oedfa gynamserol gym'rodd le
 Rhwng John, a Risiart, William, Dafydd gu,
 Cadwaladr fwyn, a'u cynulleidfa fach.
 O ! 'r elfen i bregethu ! mae hi 'n gref ;
 Os na cheiff brofi ei haden fach o flaen
 Plant dynion, hi a'i chwaru 'n hŷf o flaen
 Creaduriaid is, er ehedeg uwch eu pen !
 Pa ddydd bu hwnw, (wedi hyny a fu
 Neu sydd yn uchel iawn ehedeg yn
 Awrygylch Sion,) yn pregethu, wr bâch,
 Mewn dystaw feudŷ ; anerech gyda blas
 Y gwartheg blithion, a'r diniwed loi ;
 Gan argyhoeddi a chysuro 'n fwyn,
 Ac adeiladu 'r buchod yn y ffydd ;
 A hwythau oll yn ddefosiynol iawn
 Yn dygn gnoi y gwellt, a'r gwair, a'r maip,
 Yn llwyr ddiystyr, a diwybod am
 Y perlau drud wastreffid wrth eu traed !

A hyny heibio ; peth bachgenaidd oedd ;
 Mae'r llanc yn suan yu gor-dyfu hyn
 Gan wroleiddio. Buan iawn fe geir
 Yr elfen gref yn tori allan yn
 Y dosparth testamentau, neu o flaen

Yr holwyddorwr. Y sylwadau craff,
 Yr ateb parod penderfynol, dŷn
 Fawr sylw ato, gwelir yn y fan
 Fod mawredd yno. Ac o fis i fis
 Wrth ddarlain a rhesymu uwch y gair,
 A dadleu tipyn weithiau yn lled boeth
 Dan ffrwyn iachusol yn yr Ysgol Sul,
 Cryfhâ ei nerth ac adnewyddda ei rym;
 Adnebydd ef ei gryfder, a daw'r saint
 I wel'd ei allu hefyd. Llawer awr
 O wir fwynhad ar y Sabbathau llôn,
 Geir yn yr ysgol,—mwy nag ysgol yw,
 Sef ymarllwysfan i athrylith wiw
 Ein hi'enctyd hoff, a phur fagwrfan i'w
 Teimladau goreu.—Pwy all ddweyd pa faint
 Yw dyled Cymru iddi? Hi a roes
 Deg addurniadau yn ein hareithfeydd,
 Ac arweinyddion i'n heglwysi mād.
 Ar "*Green* y Bala," ac ar aml faes
 A thraeth yn Nghymru, cafwyd llawer gwledd
 A llawer oedfa orfoleddus dan
 Weinyddiad hoff y bechgyn fagwyd ynddi.

O glod a choron Cymru! Pan y bydd
 Ysgolion bydol wedi myn'd tros gôf;
 Pan na bydd son am Areopagus hên,

Am Forum Rhufain, nac Olympus dëg,
 Ysgolion Athen a dysgeidiaeth Groeg
 Yn llwyr ddiystyr ; pan bydd athrofeydd
 Athronwyr ac amheuwr Allmaen draw
 Ar lwyr ddifancoll ; ië, pan y bydd
 Holl rwysg a dadwrdd Eisteddfodlau'r byd
 Wedi diflanu ; eu cadeiriau gwych
 A'u tlysau drüdfawr wedi eu hysu yn nhân
 Y llosgiad olaf ; wedi hyn i gyd
 Yr " Ysgol rad Sabbothol " a rydd ffrwyth,
 Cyfrifa ei thlysau ar ororau'r nef,
 Plith pêr ganiadau gwynfydedig lu,
 Yn mhresenoldeb bythol Duw a'r Oen.

A dyna yn unig yr addysgiad ga'dd
 Ein hoff bregethwr. Nid oedd yma yn wir
 Fawr swmbwl na chynnorthwy i fyn'd yn fawr.
 Dim doeth dysgawdwr i'w gyfeirio at
 Fanylion celf rhesymeg ; nac i ddwyn
 Goleuni o'r ieithoedd gwreiddiol ar y gair ;
 Na chwaith i goethi 'r meddwl ieuanc â
 Goludoedd ymchwiliadau athronwyr byd.
 Ac nid oedd yma chwaith un teitl gwych
 Nac elw bydol i'w symbylu ynlaen
 I ddygn lafur. Dim ond athraw tlawd
 I'w gyfarwyddo, a chydymgeisiad tég

Ei gyd efrydwyr, a greddfól gariad at
Y gwir, a llafur er ei fwyn ei hun
I'w yru ymlaen. Ac eto aeth yn fawr ;
Yn fawr yn wir. Ond eithriad oedd efe.
Nid llawer un a allai fyn'd yn fawr
Fel yna'n unig. O ! na, rhaid i ddyn,
Er ei feddiannu â chynneddfau tēg,
Gael cymhorth a dysgyblaeth dysg i ddwyn
Ei allu i iawn weithrediad. Ond am hwn,
Rhyw nn mewn oes oedd ef; ac ynddo yr oedd
Fath nerth aruthrol, fath Newtonaidd rym
Nes gallai ef heb arf na tharian ond
Ei ddwyllaw noeth ymdrechu gyda'r gwir
Nes ei oresgyn. Fe allai fod y cawr
Yn ennill nerth a hyder mwy wrth fod
Mor hunan ymddibynol. O bosibl nid
Adnabuasai ef ei allu ei hun,
Ac ni buasai'r oes yn cael y wledd
O wel'd ei nerth a'i ddull priodol ef,
Oni buasai yr angenrhaid arno a roid
I dori allan lwybr iddo ei hun.

Nid mawr yn unig mewn galluoedd barn,
Ond hefyd mewn uniondeb oedd efe ;
Yr oedd mawredd moesol ynddo. Fe geir rhai
Yn or-alluog eu cynneddfau, ond

Yn gaeth i nwyd ac anifeilaidd chwant.
Fe all y dyn fod yn gyfarwydd yn
Holl riniau natur, eto yn fychan iawn
Ger bron ei Duw. Fe ddichon fod yn gall
Yn neddf cymdeithas ddynol, ac yn ddoeth
Fel gwladwriaethwr, ond er hyn os bydd
Ei gymbelliadau oll yn tarddu o-
ddiar hunan les, a chyfyngedig i
Fuddiannau amser, hawliau y byd hwn ;
Un bychan yw efe. Ond am y dyn
A seilia ei reasymadau, ac a ddwg
Ei gymbelliadau nid oddi arno ei hun,
Ond o'i gyssylltiad a'i berthynas a
Y Duwdod pur a'i holl lywodraeth fawr,
Gan estyn ei ddwfn ymchwiliadau tros,
Nid oes y byd, ond hir oes Duw ei hun ;
Hwnw sydd fawr, yn ddigon mawr i fod
Yn efengylwr. Gan ehangder mawr
Ei olygiadau fe fydd hwn yn wir
"Yn foneddigaidd ac yn hawdd ei drin,"
Yn ostyngedig, cymwynasgar, pur,
Yn llawn o gariad, ac yn llawn o hedd.
Cyda'r ansoddau hyn fe aeth ein brawd
Yn athraw,—yn weddiwr,—yn y man,
Yn wir bregethwr,—yn bregethwr mawr,
Fe aeth mor esmwyth ag y rhed y dwfr

I'r gwastad, neu'r ehêd y gwreichion fry.

Paham yr oedd y doethawr hwn mor gryf
 Ei feddwl ; ei ddychymyg mor dra byw,
 Mor brydferth, mor farddonol, mor ddial
 Yn mhlith y lluaws ? Ai rhywbeth yn y gwaed ?
 Ai neillduolrwydd yn y teulu yw ?
 "Hyuyna ar hynyna." * * * Gan mai trwy
 Beiriannau'r corff y gweithia 'r meddwl tra
 Yn ei breswyllo, fe allai fod ei holl
 Ddefnyddiau yn fwy caboledig yn
 Yr athrylithfawr : yr ymenydd o
 Fanylach gwaith, a llawer mwy o honynt ;
 Y giau a'r anweledig fân bibellau sydd
 Trwy'r cyfansoddiad, yn cyssylltu 'r dyn
 O mewn a'r byd oddiallan, yn fwy byw
 I bob cyffyrddiad, yn try-grynu 'n gynt ;
 Ffenestri i'r enaid edrych trwyddynt, oll
 Yn fwy tryloew. A diau hefyd fod
 Galluoedd a synwyrâu y dyn mawr
 A da yn gyflêedig mewn rhyw drefn
 O gyfartaledd hapus ; waith mae gras
 Yn cydweithio a natur i deg foldio'r dyn.

Pwy ŵyr nad yw y golygfeydd mawr
 A amgylchynant ddyn ar hyd ei oes
 Yn rhoi eu delw arno ? Pwy all fyw

Bob dydd yn ngolwg hen fynyddoeld bân,
 Yn nghlyw rhaiadrau 'n rhüo ddydd a nos,
 A'u twrf di ddarfod yn cymysgu a
 Rhuadau oesol tônau 'r eigion mawr
 Yn golchi 'r lân gerllaw, heb ei urddunaw !
 Lle dyrcha'r Wyddfa â mawreddigrwydd gwyllt
 Ei chribog ben ; lle croga creigiau serth
 Uwch dyffryn tlws Llanberis ; lle y mae
 Aml gwm a nant nad wÿr y prysur fyd
 Am danynt na'u prydferthwch ; lle y rhed
 Y Fenai rhwng gororau teg nad all
 Y ddaear ddangos mwy o dlynsni ; lle
 Y treigla'r mos ar Gantref Gwaelod draw
 Gan ddwyn ar gôf adfeilion Padrig hên
 A'i arw helynt ; ie, yn mhlith hên
 Adgofion,—cestyll,—bryniau,—gwlad
 Caernarfon, magwyd ein pregethwr cu.
 Nid hyn ychwaith a'i gwnaeth mor hynod sawr ;
 Ysywaeth mae llawer Cymro 'n byw
 Yn nghanol mawredd Cymru heb ei wel'd ;
 Yr hên, y mawr, a'r tlws ar hyd ei oes
 Yn ymladd am ei sylw, ac heb ei gael,
 Ac heb ei ddwyn i feddwl nac addoli ;
 Ys truan yw mae 'n ffinio 'r anifail.

Fe ddengys hanesyddiaeth i ni fod
 Yr enwau mawr yn or-ddyledus i

Ddylanwad borau 'r *fam* i ffurfio eu moes
 A'u tueddiadau. Pwy a wŷyr pa saint
 Yw dyled Cymru i dduwiolfrydig *fam*
 Ei hoff bregethwr am ei iawu gyfeirio.
 "Mae arnom anghen am wroniaid dewr
 I ymladd brwydrau Ffraingc," na ebe'r hen
 Napoleon craffus, "eisiau mamau sydd,"
 Y *fam* sy'n magu'r gwron." Eglwys Dduw
 Gweddia am "anfon gweision" at y gwaith;
 Gweddia hefyd am "torwynion call"
 I fagu dy wroniaid. Felly y bu
 Gyda'r pregethwr hwn. Fe gafodd ef
 Gyfeirio 'i seddwl mawr, at bethau mawr
 Yu gyntaf oll; ie cyn i'w ysbryd gael
 Ei sychu a'i grebachu wrth ymdroi
 Yu mhethau bychain amser, fe ga'dd ef
 Ei drwytho'n enaint per efengyl gras,
 A'i estyn allan ar wrthddrychau mawr
 Y byd tragwyddol.

Pa beth bynag oedd
 Dan fendith ddwyfol, ac ymgeledd gras
 Wedi cyfranu at ei sawredd, caed,
 Pan y clybuwyd gyntaf ei bêr lais
 Yn yr areithfa, pan ddyferodd ei
 Wryrfawl bregeth ar y dyrfa sŷn,
 Ei fod ef wedi ei "ddodrefnu 'n" wych

At waith y cysegr. Natur yma a gras
 Yn amlwg iawn gydymunasent i'w
 Gymhwyso a'i addurno. Digon gwael
 Mae 'n debyg oedd yr annedd tlodaidd* lle 'r
 Agorodd ef ei enau ; a digon hurt,
 Fe allai y'gynnulleidfa, ond er hyn
 Fe deimlent yn y fân fod rhywbeth newydd
 A mawr a hynod yno ; aeth y si
 Yn fuan trwy y cwm, ar hyd y fro,
 A thrwy y Sir i gyl, a buan iawn
 Y daeth y newydd da trwy Gymru oll.

Fe rêd y meddwl gyda hoffder at
 Yr olwg gyntaf arno. Digon syml
 A lled gartrefol o ran lliw a llun
 A defnydd oedd ei wisgiad. Ond yr oedd
 Lluoieidd-dra ei gorph, prydferthwch mawr ei wedd
 Yn gyfryw ac a fuasai 'n drysor gwir
 I'r cerf-luniedydd. A phan ddaeth y dydd
 Ar oedfa a hir ddysgwyliwyd, yn ddiau
 Nid siomiant ydoedd, ac nid syrthio 'n fyr ;
 Ond " ni fynegwyd banner " ydoedd llais
 Ei holl wrandawyr. Nid oedd yno neb
 Yn holi pam y ca'dd y gwr fath enw,
 Fel elywir weithiau, a'r gwrandawr yn
 Dechreu ystyried pa un ai ynddo ef

* Mewn tŷ annedd i y pregethodd gyntaf.

Yr oedd rhyw ddiffyg barn, nad allai wel'd
 Y mawredd, neu ynte ai 'r cyhoedd oedd
 Wedi rhyw gamgymeryd ynddo. O! na na,
 Nid nerth a thlysni celfyddydol oedd
 I hwn, ond nerth a thlysni natur, ac am hyn,
 Tarawai ar bawb ; y doeth a'r annoeth ddyn,
 Yr annysgedig a'r dysgedig oedd
 Yn gwel'd, yn teimlo ynghyd, a chyd-ryfeddu.
 A llawer gwaith trachefn gwrandawwyd ef
 Ag adnewyddol flas ; ni finid arno
 Mwy nag y blinid ar wel'd haul yn codi,
 Neu yr hen ddaear yn y gwanwyn tēg
 Yn ail ymdrwsio, gau ymbingcio yn
 Ei blodau tēg, gwyrddlesni fr, a'i ffrwythau ;
 Mwy nag y blinid ar brydferthion hoff
 Amrywiol natur ; neu ar serchus wedd
 Hen gyfaill gwir brofedig ; iē, mwy
 Nag y byth finid ar efengyl bur.

Ni phallodd yn ei nerth trwy ballu llafur
 A syrthio i lwfr ddiogi wedi rhoi
 Cychwyniad mawr. Ni ddaeth i'r golwg chwaith
 Yn ei gymeriad ef ar hyd ei oes
 Yn gyhoedd neu yn ddirgel ddim oedd wael,
 Gwrachïaidd neu anghyson : ni wnai ef
 Dra ymddyrchafu, a rhoddi y " saf draw"
 I'w gydlefarywyr ; pell oedd ef oddiwrth

Ymyrn â neu arglwyddiaethu ar
 Eglwysi Crist ; ni wnai ef fasnach o
 Wir air y bywyd ; na darostwng chwaith
 Urddas y pwlpu'd trwy ysgafnder ffol
 Nac annghysondeb gwrthun ; nid oedd un
 " Gwybedyn marw yn ei enaint " ef ;
 Am hyny dal ei ffordd, cryshau ei nerth
 Wnaeth hyd y diwedd, a chynnyddu fel
 Yr Iesu ei hun, " yn ffafwr Duw a dyn."

Y teimlad dwys o *syndod* a pha un
 Edrychem arno, a drôdd yn *serch*,
 A hwnw yn y mau a drôdd yn rhyw
Barchedig gariad. Pe y cawsem ef
 Ychydig wedi 'n ; a'r blynyddoedd yn
 Trymbau cysgodau henaint arno ; ac,
 Fel y dysgwylid mewn dychymyg gynt,
 Ei wel'd yn hen wr cryf, a'i wallt yn wŷn
 Dros ysgwydd yn lled grymu ; a'i bêr lais
 Yn crynu braidd wrth roi yr hir floedd fawr,
 Yn wir fe fuasai llawer un heb law
 Y bardd mewn perygl o'i garu ef
 A'i barchu yn ormodol.

Ond pa waeth son !

Cyn " pallu ei nerth " gan ddyddiau, i_e, a chyn
 Blino na llaesu dwylaw yn y gwaith,

Ca'dd fyned i'w orphwysfa ; cafodd ef
Orphwyso yn yr Iesu ; ac am ei gorph
Fe gafodd "GLADDEDIGARTH." A ! pa bryd
Dilynwyd un tywysog tua'r bedd
Gan y fath lu o wir alarwyr ag
A droedient ddyfryn anial Nantle brudd,
Gan ddilyn elor ein pregethwr hoff
I'w osod yn ei fedd. Am oesau i dd'od
Fe welir aml bererin yn ymdroi
Yn mynwent hen Llanllyfni, a chwilio am
Y fan gorweddfa ; a chyda serchus barch
Dysera 'r deigrin twym ar gareg fedd
"Pregethwr y Bobl."

II.

Bellach deffro yn iawn

Fy awen swyn, fel yna dywed y beirdd,
 A chwithau 'r naw chwiorydd, dowch yn mlaen
 Rhowch i mi help os gellwch, tra y bwyf
 Yn ceisio tynu ambell ddarlun o'r
 Hen gyfaill hoff, ac o'r pregethwr mawr.
 Yn hytrach bydded i fy ysbryd gael
 Rhyw ddau-parth o'r tân nefol, ac o'r pêr
 Enneiniad, a'r doethineb uchel oedd
 Yn cyfarwyddo 'i dafod medrus ef,
 I arwain fy ysgrif-bin ; nes y bo
 Plant Seion yn addoli, nid y dyn
 Ond y Duw mawr a'i rhoddodd iddynt, ac
 A'i cym'rodd ymaith ; i'e, ac nes y bo
 Meib Gwalia yn tanio a duwiolfrydig zel
 I'w efelychu.

I ba le y trown

I edrych gyntaf ? I'r areithfa neu
 Esgynlawr y Gymanfa ? neu'r côr mawr ?
 Neu ynte i'r "winllan"* ar y llechwedd draw
 I syllu arno draed a dwylaw, ac oll

* Llwyn o goed gerllaw ei dŷ lle yr arferai fyfyrto.

Yn symud mewn myfyrdod dygu ? neu
 Ai edrych arno ar yr aelwyd wnawn
 Ar ol rhyw oedfa happus yn ymrôl
 I fwynhau ei gyfeillion ? Pa un ai ar
 Y Dyn, y Cristion, y Pregethwr, yr
 Athronydd craff, neu'r Gwladwr doeth a rhydd
 Edrychwn gyntaf ? Ai ynte ar y Gwr,
 Y Tad, neu'r Cyfâill ? Pa le bynag trown,
 Y mae'r fath amledd o ddelweddau hoff
 A thlysiion yn dyscleirio ger ein bron,
 Nes braidd ein dyrysu gan ein cyfoeth mawr,
 Am unwaith yn ein hoes yn rhy oludog !

Daw llawer Sais ac estron i roi tro
 I'n Cymru hoff, i brofi awyr iach
 Ei bryniau a'i dyffrynoedd ; edrych ar
 Ei hên fynyddoedd ; rhodio ar lanau têtg
 Ei llynoedd a'i hafonydd ; gwrando rhu
 Rhaiadrau 'n treiglo tros ei hen asenau.
 A ! pe gallesid rhoi o flaen y rhain,
 Addolwyr yr arddunawl, ddarlun têtg
 O enaid mawr y Cymro o Dal'sarn,
 A'i amryw ddoniau : y mynyddoedd o
 Dlws feddylddrychau ; y rhaiadrau mawr
 O wir hyawdledd ; y dychymyg oedd
 Fel ffrwythlawn ddyffryn yn ddi-hysbydd ei

Chynnyrchion prydfferth ; yr afonydd dwfn
 Chwyddedig o bur ras a nefol deimlad
 A lifent ynddo ; yr awyr peraidd iach
 Oedd yn ei ysbryd !

O ran hyny yn wir,
 Rhy brin y gwnaethai estroniaid fawr o hono.
 Ysywaeth nis gall dynion wedi eu dwyn
 I fynu yn unig gyda ffurfiau caeth
 A seremoni ffugiol ; llawer llai
 Cenedloedd fegir tan ddylanwad du
 Pabau ac unbenaethiaid, wneuthur fawr
 O efengyl bur, na gwerthfawrogi dawn
 Yn y cyfeiriad hwnw. Heblaw hyny,
 O'r braidd y buasai ieithoedd llipa bâs
 A blaen-dafodol amryw wledydd cred
 Heb dori i lawr o dan y talpiauw mawr,
 Y creigiau ysgythrog o feddyliau ddoent
 O enau ein cyfaill yn ei hwyliaw mawr.
 Ond Cymry a Chymraeg a weddent iddo.
 Pe dygwyddasai iddo ei eni mewn
 Rhyw hinsawdd arall, fe dorasai ei ddawn
 Ryw lwybr arall, fe allai, iddo ei hun ;
 Ond gresyn fuasai i'r hen Organ fawr
 Ei rhoi at ddim ond *miwsig* cysogredig.
 Ni fynai 'r nefoedd hyny, ond fe'i rhôdd

I Gymru. Hapus gyfarfyddiad oedd,—
 Cymhwysder dawn, cymhwysder testun, a
 Iaith gymhwys, a gwrandawwyr cymhwys i
 Fwynhau a iawn ddefnyddio. Dyma “ddyn
 Prïodol yn ei le prïodol,” a phob lle
 Yr elsi iddo fe a'i llanwai yn ddiball.

Awn i'r Gymanfa enyd, er mai lle
 Anhawdd i sylwi arno 'u fanol, nac
 I wel'd ei allu, cauys mae y dorf
 Mor fawr a gwasgaredig. Ond ni awn
 I ben y “domen,*” neu 'r hen furddyn hwn
 Yn nghwr y gwersyll. Gwelir draw yn mhell
 Wr yn cyfodi, tuag ato try
 O lon wynebaw, fe allai, ngain mil,
 Mewn mawr ddysgwyliad. O'r fân hyn yn wir
 Nis gallwn eto ei glywed. Pwyllog iawn
 Ymddengys oddiyma, ac fel pe b'ai
 O'r braidd yn ceisio rhwyfo yn y blaen
 Yn groes i'r llanw; ac nid rhyfedd yw,
 Yr awr brydnawnol ydyw. Ond yu y man
 Fe glywn y llais yn graddol godi 'n uwch,
 Yn debyg iawn i'r llauw 'n dod i mewn.
 “Mae swm yn mrig y morwydd;” gwelir fod
 Y miloedd penau yn cyhwfan fel

* Tomen y Bala.

Tan rhyw gynhyrriad. Ar yr awel bêr,
 Ar brydiau, oddi draw i gyrau 'r dorf
 Fe ddaw 'r "Amen," a'r sŵn nefolaidd cynhes,
 Na cheir yn unman ond yn Nghymru hoff
 Ar ddydd Cymanfa. Trwy 'r spienddrych hwn
 Gwelir yn amlwg mai nid delw sydd
 Ar yr areithle draw. Mae 'r fraich yn awr
 Yn dechreu symud; mae y llygaid crâff
 Yn amlwg wedi tanio; ac y mae 'r
 Gwefusau yn ymdrechu. Gydâ hyn,
 Fe glywn yr hir floedd uchel flasus fawr,
 "Cyfammod," bloeddia gydâ melus dôn,
 "Tragywyddo-ol wnaeth â mi," ac yn y mân,
 "Cyfamod" etyb holl adseiniau 'r fro.
 Drachefn, ac eilwaith, fe dderchafa ei lais,
 Mae 'r llanw mawr i mewn, a thôn ar dôn
 O bur hyawdledd yn ymdori dros
 Y dyrfa fawr swynedig. 'Trwyddi mae
 Rhyw gyffro mawr; a gwelir aml bâr
 O ddwyllaw i fynu 'n ysgwyd fel pe bae
 Y bobl am ehedeg. Erbyn hyn,
 Llais y pregethwr a lwyr foddor yn
 Y "Diolch byth," a'r sŵn gorfoledd mawr.

Fe allai fod rhyw gymhorth mwy i'w gael
 I efengylu mewn Cymanfa. Mae

Yspsydoedd goreu 'r wlad yn cynnorthwyo
A gweddi a theimlad yno. Cynnil iawn
Y dylid pwysu ar y cymbelliadau
Naturiol gyda phethau dwyfol, mawr,
A glan y cysegr.— Eto diau fod
Llefaru yn ngŵydd y miloedd, ac yn ngŵydd
Goreuon yr eglwysi, yn cyffro yr ysbryd,
Ac yn fawr help i ddyn bregethu 'n rymus.
Ond pan y ceir gwr Duw yn traethu ei
Genadaeth gyda 'r unrhyw flâs a gwrês,
A than yr un arddeliad, yn y tŷ
Addoliad tlodaidd, yn y bwthyn bâch,
Ac yn ei fro ei hun, fe allwn gredu
Fod yno rywbeth yn ei gymhell ef
Heblaw o'r ddaear. Am yr anwyl frawd
Ymadawedig, mawr oedd e'n mhob man.
Nid allai fod yn fychan. Ac yn wir
Ni chai ef byth y gynnulleidfa fach
I dreio ei fetel. Dyma brophwyd oedd
Yn cael anrhydedd yn ei wlad ei hun,
Ei *gymydogion* dyrent ar ei ol.

Awn ninnau "ar ei ol ef" mewn dychymyg,
Fel buom lawer gwaith yn wirioneddol;
Mae ei "gyhoeddiad" yn y fan a'r fan,
Mae hynny yn hysbys yn y brôydd o gylch

Ers misoedd bellach, a chan faint y sôn
 Mae 'r diwrnod hwnw wedi ei nodi allan
 Mor siwr a diwrnod ffair; a phan y daeth,
 Ar hyd y llwybrau o bob cyfeiriad daw
 Y lluoedd tuag yno. Yn y man
 Mi a'i gwelaf yntau 'n dod o gam i gam;
 Yn fynych iawn yn null cyntefig y
 Dysgyblion boreu, "heb ffôn na 'sgrepan;" ar
 Ei draed y daw, gan lon-yingomio a
 Rhyw gristionogion gwladaid. Ceir y tŷ
 Addoliad wedi ei lenwi o gŵr i gŵr
 Er mai un äang ydyw. Trwy y dorf
 Ymwithia i'r areithle. Yno saif
 Yn dra diystyr o'r ugeiniau sydd
 A'u llygaid tuag ato. Prin y ewyd
 Ei olwg oddiar y Bihl mawr.
 Ond yn ei weddi odid fawr na cheir
 Rhyw ernes felus o'r wledd sydd gerllaw,
 Rhyw gawod sách o flaen y tywallt mawr.
 Agora ei destun yn fanylaidd iawn
 Ac yn dra phwyllog, mae ei eiriau oll
 Yn dra phriodol, ei unig iaith yn bur
 Ac yn goethedig. Os dygwydda fod
 Mewn tymher hapus, tebyg iawn y ceir
 Cyfeiriad siriol at yr "Ieithoedd gwreiddiol;"
 Neu os athrawiaeth a fydd dan ei law,

Fe daera ei fod e'n "Galŷin mawr yn siwr;"
Er gwyddid mae cymedrol oedd y gwr,
Hyny yw, Calŷin cywir; ymarferol oedd
Gan mwyaf, gan amcanu yn deg i ar-
gyhoeddi y pechadur, ac i'w ddwyn
Yn llwyr ddiesgus i ymgeisio â Duw.—
O! "feistr y gynnulleidfa!" medrai ef
Drin meddwl dyn! Yn hapus iddo ei huu,
Ac wrth ei bwys chwareuai ei fysedd ar
Holl dannau 'r galon. Fel yr â yn mlaen
Gan dwymno, mae trôadau mwyn
Ei beraidd lais yn od gyfateb i'w
Syniadau pur, ei ddarluniadau teg,
A'i apeliadau gwresog. Yn y man
Dan lewyrch nefol, llifa 'r eunaint pêr
Ar hyd "hespenau clo" pob enaid yn
Y gynnulleidfa. Anhawdd iawn yn wir
Oedd deall yn mha le 'r oedd dawn y dyn
Yn darfod, neu yn dechreu, dawn y Duw.
Yr oedd y ddau 'n cydweithio, tyst y ffirwyth.
Diau y dysgwyd llawer enaid sych
I deimlo dan y gair o'i enau ef;
Fe dynodd deyrnged fawr o ddagrau pur
A thwym "Amenau" i efenngyl Crist.
Ond at ein hoedfa, oedfa *led-faith* yw.—
Fel pelydr yr Haul yn ymgryfau

Wrth adlewyrchu yn mhlith gwrthdychau'r byd ;
 Cynhesa ei ymadroddion, nes y mae
 Tymheredd teinlad y gwrandawwyr yn
 Anataliadwy ; ac ar yr haiarn poeth
 Daw 'r ergyd mawr ;—ac yna i'w hirfloedd ef,
 Bloeddiadau 'r dorf atebant !—Dyma wledd !
 Eneidiau yn ymarllwys teinlad pur
 Ac wrth ymarllwys gwledda, a myn'd yn gryf
 Mewn gras a phrofiad. Ar adegau mawr
 Fel yna, weithiau bron na thybiem fod
 Angylion glân oedd yn y lle yn cael
 Rhyw nefoedd ar y ddaear ; a bod ar
 Gythreuliaid ddaethant ynø i demtio, flys
 I lechu mewn cornelau, neu i ffoi
 O dan y meinciau i rywle, ac y rhoent
 Fydyssawd, pe y meddent, am ddiddydra.

Oedfäon mawr fel yna, yn ddiâu,
 Dan fendith Duw a dynodd sylw ein gwlad,
 Gan bron ddarostwng Cymru o ben i ben
 Dan yr Efengyl. Pwy a w'yr nad oedd
 Yr hen Rowlands o Langeitho, yn y nef,
 A Howell Harris, a'r pregethwr mwyn
 O Glynog gynt, ac yntau Elias fawr,
 O'u mawredd fry yn gwybod rhywbeth am
 Oedfäon ein gor-enneiniedig frawd.

Fe allai fod rhai o'i ysprydol blant
Yn dwyn y newydd iddynt; ond diau
Y Farn yn unig ddengys faint eu ffrwyth.

Gwrandawr gwych oedd ein pregethwr ar
Ei gyd-bregethwyr. Mynych gwelwyd ef
Yn gwrando ar ei frodyr llai eu dawn
Yn siriol iawn. Fel pe bai 'r ÷os fwyn .
Yn tewi ei chân i wrando ar drydar gwan
Yr adar bach; neu fel mawreddog y'ch
Yn syllu yn llòn ar branciau yr oen bach;
Neu fel yr hoffus dad yu sylwi ar
Y bychan gwan yn dechreu teimlo ei draed,
Yn chwaraù ei ddwyllaw, neu yn ceisio trin
Ei dafod bach, a throi ei gri yn iaith.
Pa mor ddiaddurn bynag gallai fod
Y bregeth, eto os cywirdeb oedd
I'w weled ynddi, siriol iawn oedd ef.
Diamau fod ei feddwl cyflym yn
Rhagflaenu llwybr ei arafach frawd;
Fe welai e'r wythien fawr a phur
Yn gorwedd yn y testun, tra yr oedd
Y d'wedwr bach yn ymbalfalu o'i chylch
Gan fetbu taro arni. Ac o'i flaen
Dysgleiriai perlau a gemau o'r dwfr puraf
Y pasiai arall heibio heb eu gwel'd.

Ond ni ynganai air yn fach am neb
Rhy fawr oedd i ddirmygu, ond y drwg.

Er maint ei allu yr oedd ynddo ryw
Wyleidd-dra isel fel y carai yn fwy
Wrando ar ereill na llefaru ei hun ;
Ac felly weithiau byddai braidd yn gyndyn.—
Dyna fe yn eistedd tan y Pwlpud yn
Yr hoff gynnulliad neillduedig ar
Foreuddydd y Gymanfa. O'i gylch mae
Arweinwyr y Gynadledd. Cyfyd un
I agor y cyfarfod. Mae ei wedd
Fel yn dysgleirio gan efengyl twyn,
A'i lais arianaidd yn dylifo i maes
Fel aber o dangnefedd. Ar ei ol
Fe allai y cyfyd hwnw i ddweyd gair,
Mae gras a natur wedi gosod urdd-
asolrwydd tyner arno. Ond am y gwr
O dan y pwlpud cyndyn yw ef eto,
Er ei fawr gymhell. Yna fe allai ceir
Rhyw sylw ffraeth-bert gan y "brawd o'r De,"
Mae ei aceniad a'i wresogrwydd yn
Gogleisio y meddwl puraidd. Yna daw
Ar ol cryn gymhell, o'r cefn-feinciau draw,
Hen flaenor gwladaidd yn ei hugan lwyd ;
Mae rhyw hynodrwydd yn ei ras a'i ddawn,

Am hyny gwelir pawb yn crymu ymlaen
Ac yn clustfeinio. Mae yr hen wr llwyd
Yn ceisio siarad, ond cryn ymdrech yw ;
Ei ddwyllaw yu mhleth orphwysant ar ei fron,
Ond pan y cyfyd un trwy wallt ei ben
A chyffro sydyn ; mae yna ryw olygiad
Cyrhaeddgar yn yr esgoreddfa, ond
Fod y peiriannau ymadrodd yn anufudd :
Ond dyna fe, fe gafodd afael yn
Y ffôn o'r diwedd, ac aeth y gareg lefn
Yn union at y nôd ; nes yr oedd pawb
Yn teimlo ac yn gwenu. Wedi hyn
Rhag cywilydd braidd, os nid oblegid fod
Ei yspryd wedi cyffro, dacw'r brawd
O Dal-y-sarn i fyny ; ac fe â
At wraidd y mater, a rhydd hergwd cawraidd
Hyd adre iddo, a gedy ar y bwrdd
Cyn eistedd eilwaith, damaid mawr a blasus.

Oedfaon hyfryd ! Llawer gwaith y cipiwyd
Yr holl ddisgyblion ynddynt megis gynt
I fryn y gwedd-newidiad, ac fe ddaeth
Y fath ddysgleirdeb nesol ar y gwir
Nes bron eu tafu i bêr-lewyg fel
A ddaliodd Pedr. Rhagbrawf melus iawn
O'r nef ei hunan ! Ac ni byddai neb

Yn eu mwynhau yn fwy na'n hanwyl gyfaill.
 Ar yr adegau hyn fe fyddai gwir
 Hapusrwydd ar ei wedd. Ni welid ef
 Yn tywallt dagrau; mae y dyfroedd dwfn
 Yn llifo yu araf. Ac feallai fod
 Ffynhonell teimlad ynddo ef mor ddofn
 Fel na chyrrhaeddai 'r dagrau 'n deg i'r lan.
 Ond yr oedd teimlad yno, tyst y llou,
 Y dysglaer lygaid oedd yn britho, a'r
 Amrantau yn crynu, a'r gwefusau teg
 Yn gwenu, a'r ysgwyddau mawr a chryf
 Yn siglo trwyddynt.

Pregethwr oedd efe

Mewn modd arbenig. Ni arferai roi
 Rhyw sylw manwl i drefniadau ac
 Achosion amgylchiadol ac allanol
 Crefydd. Fe gyrhaeddodd radd o ddysg,
 A mesur o wybodaeth, oedd yu rhoi
 Pawb i ryfeddu, pan y cofent mai
 Unieithog ydoedd. Daearyddiaeth oedd
 Wrth ben ei fysedd; peroriaethydd da;
 Athronydd; naturiaethwr craffus iawn;
 Gosodai oll dan deyrnged i'r efengyl.
 Pan y canfyddai fod athronwyr yn
 Ceisio esbonio gormod, a dwyn clod

Y Crewr penarglwyddiaethol, traethai'n llym
 Yn erbyn eu ffol ryfyg ; ac am hyn
 Bu rhai o'n doethwyr arwynebol yn
 Ymosod arno yn dost ; fel clepgwn gwan
 Yn cyfarth ar yr haul, neu 'n arthio 'r lleuad.

Dyna 'r dirgelwch, meddwl mawr ei rym
 Wedi ei ddal gan ras yn foreu a
 Chrynoi ei nerth yn llwyr i un cyfeiriad ;
 Mewn un iaith gref yn traethu 'n unig ar
 Y testyn uchaf. Onid hyn a'i gwuaeth
 Mor hynod i ragori ? A chyda hyn
 Attegid ei ddylanwad cyhoedd gan
 Ei foesau cyson pur, a'i wir ddynoliaeth.
 Crist 'nogaeth a dynoliaeth ynddo geid
 Yn harddu eu gilydd. Nid yn fwy na dyn
 Yn yr areithfa, ac yn llai na dyn
 Allan o honi.—Ni ddrygsawriai 'chwaith
 Brudd *felancoli* na munudiau ffol
 A gwrthun ynddo.—Ni osodai ei serch
 Ar bethau 'r nef ar draul ysbeilio hoff
 Wrthddrychau eraill o'i ddyledus serch.
 Bu Iesu ei hun yn wylo uwch ben bedd
 Ei gyfaill Lazarus ; felly ei anwyl was,
 Fe "garai yn fawr ;" a gormod gorchest fu
 I'r priod beidio, lle y byddai yn hŷf

Ac yn mhlith brodyr, dwyn ei "Fanny" gu
 Ar droau i'r pwlpud, a phregethu ei
 Hapusrwydd cartref. Mewn cymdeithas pwy
 Mor rydd, mor addfwyn, mor ddiabsen, mor
 Anmhleidgar, ac mor bur a ffyddlon ?
 Beth oedd ei fai ? Yn mha le yr oedd e'n wan ?
 A'i cariad mawr a'n gyrodd yn rhy ddall
 I weled ? Ai ei fawr ddoethineb ef
 Oedd yn ei guddio ?

Ar y cyfan, ni

Ddysgwyliwn ar y ddaear wel'd ei ail.
 Cryn gymhorth i ddygymod a'r hen fyd
 Oedd cofio fod y fath nodweddiad yn
 Cyd-gerdded arno.—Er hyderus ddysgwyl
 Ei gael yn rhodio yn gyfochrog hyd
 I ben yr yrfa; wele, fe ddiflanodd !
 A phan yr hunodd, i ein teimlad prudd
 Bu farw fesur mawr o bleser einioes.
 Ymdeimlem fel pe byddai cyfran fawr
 O'r haul dan fythol fethiant, neu fod darn
 O'r wybren wedi syrthio ! Am eglwys Dduw,—
 Ei frodyr hoff yn Nghymru, pan yn cyd-
 alaru uwch yr hardd-deg golofn a
 Syrthiasai ; tywyll a digysur iawn

Fuasai yn wir, oni buasai i rywun gael
Ysgrifan dan ei sail, "FE DDICHON DUW."

Mae ef yn HAPUS heddyw! Ac yn wir
Yr oedd ef yma yn or-ddedwydd ddyn.
Pa beth yw holl fwynhad y bydol ddyn
Yn casglu cyfoeth, wrth fwynhad yr hwn
Ddewisodd y rhan ddâ, ac a ymrôdd
Ar hyd ei oes i gasglu perlau tég
Yn maes efengyl, ac i fod yn wir
Cyfoethog ger bron Duw? Beth yw mwynhad
Y Bardd, y Gwladwriaethwr, neu y fraeth
Ddadleuwr, byth yn trafod pethau bach
A difanedig daear, wrth y pur
Ddedwyddwch brofa yr Efengylwr yn
Cyfranu gair y bywyd, ac yn cael
Serchiadau Seion, ac arddeliad Duw?

Mae yn OGONEDDUS heddyw! O! mor ffol
Mor anfad ffol yw tybied fod ein Duw,
Y Doeth a'r Da, yn creu yr yspryd mawr
A gwir ardderchog, ië, a'i greu drachefn
A'i lwyr sancteiddio; a hwnw yn y man
I ddiffodd megys canwyll, neu i lwyr
Ddiflanu megys tARTH! Nid felly y mae
Trefniadau'r greadigaeth. Am y dâ

A'r dedwydd ar y ddaear, diau ei fod
Yn ddâ a dedwydd uchod. Yno y mae
Yr enaid mawr yn cael diderfyn rwysg
I nofio ynddo. Yn seren ddysglaer fawr
Bu ar y ddaear enyd, bellach mae
Yn seren fawr *sefydlog* yn y nef;
Rhy bell yn wir i'w gwel'd â llygaid noeth
O'r ddaear isod, ond dyscleirio mae,—
Dyscleiria ymlaen yn ymyl Duwdod byth !

III.

O ! Gymru brydferth, gwlad ein genedigaeth
 Hen wlad ein tadau, gwlad ein mebyd wyt,
 Yr ŷ'm yn caru, a chariad mabaidd pur
 Pob modfedd o dy ddaear ; a dy blant
 A chariad brawdol. Ni a'th garwn am
 Dy dlynsni yma, dy wylltineb draw,
 Dy draethau, dy fynyddoedd, a dy holl
 Ogonedd natur ! Ni a'th garwn am
 Dy ryddid, dy dawelwch, a dy foes,
 Ond mwyaf oll fe y'th garwn am dy fod
 Yn wlad efengyl, ië, ar y blaen
 I wledydd daear yma. Ac y mae
 Dy hinsawdd, trwy drugaredd Iôr, mor bur,
 Nes magu CAWRI yn dy *areithfeydd*.

Tra gwelir gwledydd eraill yn ymroi
 I ymddifyru mewn digrifwch ffol ;
 Rhedegfeydd, tarw-ymladdfeydd, chwareudai
 A phob oferedd, ceir mwyafrif yn
 Ein hyfryd wlad a'u prif ddifyrwrch yn
 Yr wyl grefyddol. Gwelir hufen dawn
 Ein meibion yn dylifo i'r areithfa ;
 Athrylith Cymru yn ffrwytho ar faes efengyl.

er nad oes i'r Dalaeth enwau mawr
 yn athronyddiaeth; nid oes iddi Locke
 Bacon, Newton fawr, na Davy;
 Yn llyfr natur ni ragorodd fawr
 Mewn dwfn ymchwiliad, ond uwch llyfr datguddiad
 Hi wnaeth orchestion. Ac yn wir nid yw
 Y byd allanol, y greadigaeth, ond
 Y porth i'r ddinas, neu y prydferth faes
 O gylch y palas; er yn ddiau fod
 Y maes yn brydferth, a phob blodyn yn
 Gwahôdd ein sylw at ei siriol wedd,
 Ac at y Duw a'i gwnaeth, a diau dylid
 Ei lwyr fwynhau wrth basio; ond yn y blaen
 Yn rhyw led frysiog y prysura'r Cymro
 Crediniol; heibio i bob peth oll yr â
 Yn union at ei Dduw. Gwel lle yr egyr Duwdod
 Mewn Iachawdwriaeth yn ddiderfyn wledd
 I holl gynneddfau'r enaid, ac yno y car
 Yn swyaf oll breswyllo; ni rydd fawr
 Anrhydedd i un athraw ond yr hwn
 A'i dwg ef yno, ac a'i tywys i'r
 Porfêydd breision, a'r puredig ddwfr.

Ni fagodd Cymru ond ychydig ete
 O gewri yn y Senedd, yn y llys
 Cyfreithiol, neu ar brysur faes gwladyddiaeth.
 Gwlad dawel ydyw, ac er's oesoedd bellach

Yn arbenig rydd oddiwrth bob cyffwrdd gwladol.—
 Ymfrostia weithiau yn ei Beirdd, ond yma
 (A dweyd yn gynnill rhag ofn cyffio'r brodyr)
 Ni chyrrhaeddasom eto yr *uwchaf* radd
 Mewn gwir Farddoniaeth. Ac ni fedd em hiaith
 Un Homer, Virgil, Tasso, Milton, Poliock,
 A wnaethant gân bob un a anfarwolodd
 Eu henwau hwy, eu hiaith, a'u testun hefyd;
 Na chwaith un Burns, un Shakspeare, neu Beranger,
 A'u henwau yn deuluaidd trwy eu gwledydd,
 A'u tlws ganeuon yn ngeneuau pawb.
 Pa beth oedd Twm o'r Nant ar ol y cwbl?
 Yr oedd e'n ffraeth, ond nid oedd y nddo y teimlad
 A'r tlyder natur sydd yn gweithno ei ffordd
 I deml y serch; yr oedd ef rae i yn uwch
 Na gwag faledi yr heol, dyna'r cyfau.
 Am Huws, a Morus, Glan-y-gors, a'r rheiny,
 Nid oedd eu gwaith ddim gwell na *lol* ar gân.
 Llewelyn Ddŷ o ran ei waith barddonol
 Oedd feddwl mawr yn hunanynddiraddio.
 Yn ddiweddarach, pa beth a wnaeth Alun
 A Glan Geirionydd, ond ychydig ddarnau
 I ddangos eu galluoedd, a pheri galar
 Na lafuriasent fwy? Ond iddynt enmill
 Rhyw dlws neu gadair, dyna'r beirdd yn gorphwys
 Ar eu tég lawrydd! Pa beth mewn Eisteddfod
 A goetha'r genedl? Rhyw gopog ddynion

A fu yn Lloegr, ag estronol osgo 'n
 Areithio Saesoneg,—synu y brodorion—
 A doniau arwynebol ! Beth yw 'r cynnyrch ?
 Ychydig awdlau a chywyddau caethion ;
 Pur dda mae 'n wir, ond eto nis darllenir
 Ond gan y beirdd yn unig ; ac nis gallant
 Gan hyny goethi chwaeth na phuro moesau,
 Nac ymbreswyllo yn meddyliau 'r llunaws.
 Ni fynem ni yn wir aumharchu 'r beirdd,
 Na diystyru eu barddoniaeth, ond
 Yn unig haerwn na chyrfiaeddodd i
 Dir *uwchaf oll* yr awen, ac na fedd
 Ddylanwad arbenigol ar ein gwlad.

Ond ein pregethwyr ! O ! yr hen Gristmas Evans.
 A'i bur ddychymyg ; Williams hoff o'r Wern,
 A'i dlyzni bywiog ; dyna ddau a rodd
 Farddoniaeth bur o flaen y Cymry, ac
 A wnaethant argraff fythol. Ac fe gaed
 O enau ein hanwyl gyfaill o Dal'saru
 Fwy o farddoniaeth glöyw yn mhob lleuad
 O'i oes gyhoeddus, nac oedd cynnyrch llawer
 Eisteddfod gyfan.—Am farddoniaeth pur,
 Ac areithyddiaeth uchel, ac am wir
 Athroniaeth, gall pwlpudau ein hoff wlad
 Ymblyth amryw bleidiau, herio y byd i gyd

I ddangos eu rhagorach. Caed a cheir
 Yn Nghymru enwau ag na byddai raid
 Ofni eu gosod mewn cymhariaeth a
 Saurin, Fenelon, Hall neu Chalmers enwog.


Nid i ni Arglwydd grasol, nid i ni
 Boed y gogoniant, ond i'th enw Di
 Yr hwn a wnaethost ragor. Boed ein gwlad
 Byth, byth yn ufudd i Ti ; deued ei
 Thrigolion oll i'th ofni, a deued ei
 Thalentau goreu 'n gysegredig i
 Dy wir wasanaeth. Ië deued ein
 Cyd-ddeiliaid oll dan goron Prydain Fawr,
 Y Sais, y Gwyddel, yr Ysgotyn craff ;
 Miliynau India, a phlant Affrig ddô,
 I gyd tân faner Iesu. Ië, doed
 Yn fuan, fuan, holl drigolion byd,
 Gwaith un Crëawdwr, deiliaid yr un Farn ;
 Y Rwss, y Twrc, trigolion Ewrop fawr,
 Y gwar a'r anwar yn Amerig draw,
 Myrddiynau China, plant y Lama pell,
 A'r Mogul mawr ; O ! deued oll at Grist !
 A doed y doniau mawr, Y MWYAF OLL,
 I gu bregethu 'r Ceidwad. Onid yw
 Mor hawdd i'r Crëwr alw y mawr ei ddawn

A'r byr ei ddeall ; Efe wnaeth y ddau.
Myned ein Iôr dalentau pena'r byd,
I draethu ei ras ; yn ebyrth teilwng têtg,
I "hongian oll ar Drostan fawr y Groes !"

DIWEDD.

D. S.—Tu dal. 16, yn lle "mos" darllain "mor".

WYDDGREG: ARGRAFFWYD GAN HUGH JONES.



LLYFRAU CYHOEDDEDIG AC AR WERTH, GAN
H. JONES, WYDDGRUG.

—o—

Gan yr un Awdwr,—Trydydd Argraffiad

F Y C H W A E R ;

Sef, Cofiant am Miss Margaret Jones, Cefn y Gader,
yr Wyddgrug. Pris mewn lian, 1s. 6ch.

E H E D I A D A U B Y R I O N ;
Sef Cyfansoddiadau Barddonol. Pris 1s. 6ch; a 2s. 6ch.

ESBONIAD BEIRNIADOL,

Ar Ysgrythrau yr Hen Destament a'r Newydd; wedi
ei rwymo yn dair Cyfrol, Pris mewn lian, 15s.

Y P R E G E T H W R ;

Dan olygiad y Parch. Roger Edwards. Pris mewn
lian, 6s.

Pregethau y Parch. John Elias.

Cyfrol II;—Pris mewn lian, 2s. 6ch.

CHARNOCK AR BRIODOLIAETHAU DUW.

Wedi ei gyfieithu gan y Parch. O. Jones, Manchester.
Pris mewn lian, 6s.

TRAETHAWD AM YR YSBRYD GLAN A'I WAITH.

Gan Dr. Owen. Pris mewn lian, 3s. 6ch.

Gorph Gynnwysfawr o Gduwinyddiaeth.

Gan y Parch. Alexander Smith Paterson, A.M. Pris
mewn lian, 3s. 6ch.


T H I R Z A .

Wedi ei gyfieithu gan y Parch. O. Jones, Manchester.
Pris 6ch.

CANEUON, CREFYDDOL A MOESOL.

Gan y Parch. Roger Edwards. Pris 6ch.







3 2044 018 788 497

This book should be returned to the Library on or before the last date stamped below.

A fine of five cents a day is incurred by retaining it beyond the specified time.

Please return promptly.

STALL STUDY CHARGE

WIDENER

WIDENER

1996

BOOK DUE

WIDENER
SEP 9 0 1997
BOOK DUE

WIDENER
JUN 13 1996
BOOK DUE

WIDENER
JUN 5 1996
MAY 1 1996
BOOK DUE

